





# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2014–15





# Cynnwys

Rhagair	4
Cyflwyniad	5
Y GIG	6
Rheoleiddio Gofal Iechyd Annibynnol	14
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	17
Goruchwylio Bydwagedd	23
Gwelliant Sefydliadol	25

# Rhagair

Roedd y llynedd yn flwyddyn anodd i wasanaethau iechyd yng Nghymru gyda chyhoeddiad 'Ymddiried mewn Gofal' ym mis Mai 2014, pryderon parhaus am gynnydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a gwasanaethau iechyd dan sylw parhaus yn y cyfnod yn arwain at etholiadau llywodraeth y DU.



Parhaodd y craffu ar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd ar ôl cyhoeddi adroddiad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad ym mis Mawrth 2014 a'r adolygiad annibynnol dilynol gan Ruth Marks, '*Y Ffordd Ymlaen: Dod yn gorff arolygu a gwella*', a gyhoeddwyd ym mis Ionawr.

Yr her i AGIC oedd cadw pwyslais ar fynd i'r afael â'i heriau sefydliadol, fel recriwtio a chadw, gan ddangos y gallai gyflawni ei chyfrifoldebau allanol i ddarparu sicrwydd o ran ansawdd a diogelwch gofal.

Ein hymateb oedd cyhoeddi rhaglen waith uchelgeisiol a gynyddodd gweithgarwch arolygu yn y GIG ac mewn gofal iechyd annibynnol o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf, a cyflwynwyd rhaglenni newydd o arolygu mewn meddygfeydd teulu a phractisau deintyddol gennym hefyd.

Mae'n glod i ymrwymiad y bobl sy'n gweithio yn AGIC, a oedd yn destun craffu allanol enfawr, bod y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2014/15 wedi cael ei ddarparu mor effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y bodlonodd AGIC ei ymrwymadau yn ogystal â'r effaith rydym yn ei chael ar draws y dirwedd iechyd yng Nghymru. Nid yw'n ddigon i gynnal arolygiadau yn unig; mae'n rhaid i ni sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n galluogi a chefnogi gwelliant hefyd.

Un llwyddiant allweddol i ni o ran llywodraethu oedd sefydliad **Bwrdd Cyngtori AGIC**,<sup>2</sup> sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol; ond hefyd, ac yn nodedig, mae hanner y Bwrdd yn ddefnyddwyr gwasanaeth, sy'n sicrhau bod llais y claf a'r cyhoedd yn cael ei ystyried trwy gydol ein rhaglen waith.

Rydym wedi adolygu llawer o'n systemau a'n prosesau mewnol er mwyn sicrhau bod AGIC yn gadarn fel arolygiaeth. Rydym wedi cael ein calonogi gan adroddiad Ruth Marks, a amlygodd yr angerdd a'r ymrwymiad sydd gan staff AGIC tuag at eu gwaith yn ogystal â faint o gynnydd mae'r sefydliad hwn wedi ei wneud yn ystod 2014/15.

Rwy'n falch o gyflwyno adroddiad blynyddol eleni; mae'n cynrychioli gwelliant sylweddol i berfformiad AGIC, sy'n arwain at ofal gwell i gleifion yn y pen draw.

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen yr adroddiad hwn.

**Dr Kate Chamberlain**

Prif Weithredwraig

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

<sup>1</sup> [gov.wales/topics/health/nhswales/organisations/review/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/health/nhswales/organisations/review/?skip=1&lang=cy)

<sup>2</sup> [www.hiw.org.uk/bwrdd-cyngtori-2](http://www.hiw.org.uk/bwrdd-cyngtori-2)

# Cyflwyniad

Adolygwyd canlyniadau a gwerthoedd AGIC gennym yn ddiweddar ac fe'u cyhoeddwyd yn ein **Cynllun Strategol 2015–18**.<sup>3</sup> Rydym yn eglur y dylai buddiannau'r cyhoedd, cleifion, perthnasau, a holl ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd fod yn ganolog i'n gwaith. Ein diben sylfaenol yw:

*'Darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd i hyrwyddo gwelliannau.'*

Rydym yn gwneud hyn trwy alinio ein gwaith, a thrwy geisio dylanwadu ar bedwar canlyniad allweddol:

- Rhoi sicrwydd annibynnol ynglŷn â diogelwch, ansawdd ac argaeledd gofal iechyd trwy reoleiddio effeithiol a thrwy adrodd yn agored ac yn eglur ar ein harolygiadau a'n hymchwiliadau
- Annog a chefnogi gwelliannau mewn gofal trwy adrodd a rhannu arfer da a meysydd lle mae angen gweithredu
- Sicrhau bod profiad y claf yn ganolog i'n prosesau arolygu ac ymchwilio
- Defnyddio ein profiad o ddarparu gwasanaethau i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

Mae adrannau dilynol yr Adroddiad Blynyddol hwn yn disgrifio sut rydym wedi mynd i'r afael â hyn ym mhob un o'n rhaglenni gweithgarwch cyffredin: ein gwaith yn y GIG; ein gwaith o reoleiddio ac arolygu gofal iechyd annibynnol; ein rhaglen o weithgarwch yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu; ac ein swyddogaeth fel y sefydliad sy'n lletya'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar gyfer bydwagedd. Rydym hefyd wedi amlinellu rhai o'r camau rydym wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu ein hunain fel sefydliad.

Rydym wedi cyflwyno'r gwaith rydym wedi ei wneud, a'r hyn rydym wedi ei ganfod, ac wedi cynnig enghreifftiau o le mae ein gwaith yn helpu i gefnogi gwelliant i wasanaethau.

Dim ond trosolwg o'n gwaith all yr adroddiad hwn ei gynnig. Rydym wedi darparu dolenni i ragor o wybodaeth fanwl trwy gydol yr adroddiad lle bynnag y mae hon ar gael.



<sup>3</sup> [www.hiw.org.uk/cynllun-strategol](http://www.hiw.org.uk/cynllun-strategol)

# Y GIG

## Arolygiadau Ysbytai (Urddas a Gofal Hanfodol)

Yn ystod 2014/15, rhoddodd AGIC ffocws i'w rhaglen arolygu er mwyn cynyddu gweithgarwch a rhoi sylw ehangach ar draws gwasanaethau'r GIG. Roedd arolygiadau urddas a gofal hanfodol yn darparu craidd dull arolygu AGIC yn GIG Cymru. Rydym wedi cynyddu ein presenoldeb a gwelededd yn sylweddol yn y GIG ac wedi sicrhau bod ein canfyddiadau yn cael eu hadrodd mewn modd amserol ac adeiladol sy'n cefnogi gwelliant.

Cynhaliodd AGIC 46 o arolygiadau urddas a gofal hanfodol a chwech arolygiad dilynol mewn byrddau iechyd ledled Cymru. Roedd pob un o'r arolygiadau ysbyty yn ystyried pedwar maes, ac mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r themâu allweddol a nodwyd ym mhob maes yn ein harolygiadau yn ystod 2014/15.

Adolygwyd ein dull o gyflawni arolygiadau dilynol i sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'n gweithgarwch arolygu. Sicrhaodd hyn yr ymatebwyd i faterion a godwyd. Gwnaethpwyd hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gweithgarwch arolygu pellach wedi'i dargedu.

### Profiad y Claf

Canfu AGIC yn gyffredinol fod pobl wedi derbyn gofal iechyd a ddarparwyd gydag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd. Derbyniwyd dros 330 o holiaduron adborth cleifion a oedd yn dynodi bod cleifion yn hapus gydag ansawdd y gofal a'r driniaeth a'u bod o'r farn bod staff yn foesgar, yn gydwybodol, yn broffesiynol, ac yn dangos parch. Dyma rai ystadegau o'r ymatebion i holiaduron:

- Roedd 95% o bobl yn teimlo bod y ward yn lân ac yn daclus
- Dywedodd 95% o bobl fod y staff yn foesgar tuag atyn nhw, eu ffrindiau a'u teuluoedd
- Dywedodd 91% fod staff yn gwrando arnyn nhw, eu ffrindiau a'u teuluoedd
- Dywedodd 76% fod staff wedi eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol



- Dywedodd 97% o bobl fod staff yn garedig ac yn sensitif gyda nhw pan oeddent yn darparu eu gofal a'u triniaeth.

Rydym yn bwriadu llunio dadansoddiad thematig ar yr arolygiadau urddas a gofal hanfodol yn ystod haf 2015 a fydd yn cynnwys dadansoddiad llawn o ymatebion i'r holiaduron profiad y claf.

### Hanfodion Gofal

Canfu AGIC yn gyffredinol fod timau staff wedi ymrwymo i ddarparu safon uchel o ofal. Roedd arfer nodedig yn cynnwys:

- Gwelsom amrywiaeth o fentrau 1000 o Fywydau a Mwy yn cael eu defnyddio i wella gofal a thriniaeth ar draws ein harolygiadau. Er enghraifft, defnydd ystyrion o *gyfarfodydd briffio diogelwch cleifion*<sup>4</sup> ar adegau trosglwyddo staff ac ymgyrch *Drink a Drop*<sup>5</sup>.
- Yn ystod rhai arolygiadau, gwelsom fentrau a oedd yn casglu gwybodaeth bwysig am gleifion a'u dymuniadau, gan gefnogi eu hurddas a gwneud eu triniaeth yn fwy personol. Roedd y rhain yn cynnwys mentrau fel y proffil *Dyma fi*<sup>6</sup> a'r *Adduned Urddas*<sup>7</sup>.

Er hyn, ni allai AGIC fod yn sicr bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel bob amser. Nodwyd problemau penodol gennym yn ymwneud â chofnodion cleifion, nad oeddent bob amser yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau safonau clinigol. Roedd hon yn broblem a amlygwyd ym mhob bwrdd iechyd, gydag enghreifftiau o ganfyddiadau fel:

- Staff yn defnyddio dulliau anghyson o gwblhau dogfennau gofal ac asesu risg fel nad oedd ymyriadau gofal gan staff yn cyd-fynd â'r cynllun ysgrifenedig bob amser. Lle'r oedd cynlluniau gofal, roeddent yn gyffredinol ac nid yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac roedd yn ymddangos bod rhywfaint o ddryswch ymhlith staff am y term cynlluniau gofal sy'n 'canolbwynt ar yr unigolyn'. Ni allem fod yn sicr felly bod tystiolaeth o ofal unigoledd yn cael ei hyrwyddo.
- Nid oedd cofnodion cleifion yn cael eu llenwi'n brydlon, ac roeddent weithiau'n cael eu gadael tan ddiwedd y sifft.
- Roedd cofnodion cleifion yn dynodi nad oedd timau ward yn asesu lefelau anghysur, poen neu drallod cleifion yn rheolaidd er mwyn darparu triniaeth neu feddyginiaeth effeithiol a phriodol. Hefyd, nid oedd cleifion yn derbyn asesiadau iechyd meddwl fel mater o drefn, ochr yn ochr â'u hasesiadau iechyd cyffredinol o adeg eu derbyn i wardiau ysbyty.

### Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd ein canfyddiadau o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth timau yn y GIG yn gadarnhaol yn gyffredinol. Gwelsom dystiolaeth o dimau cydlynol cryf yn gweithio ar lefel a pharodrwydd gan staff, o bob gradd, i weithio'n ddi-dor i ddiwallu anghenion y cleifion.

<sup>4</sup> [www.1000ofwydauamwy.wales.nhs.uk/cyhoeddiadau#Offer\\_Gwella\\_Ansawdd](http://www.1000ofwydauamwy.wales.nhs.uk/cyhoeddiadau#Offer_Gwella_Ansawdd)

<sup>5</sup> [www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk/news/37847](http://www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk/news/37847)

<sup>6</sup> [www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk/opendoc/218999](http://www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk/opendoc/218999)

<sup>7</sup> [www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk/opendoc/165833](http://www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk/opendoc/165833)



Er hyn, ni allai AGIC fod yn sicr bob amser bod gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel yn gyson a bod gwasanaeth diogel yn cael ei ddarparu. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o staff â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir bob amser i ddiwallu anghenion pobl. Roedd hon yn broblem a nodwyd mewn rhai rhannau o bob bwrdd iechyd. Roedd pryderon penodol yn ymwneud â'r ddibyniaeth uchel ar staff banc ac asiantaeth, lefelau staffio nad oeddent yn addas ar gyfer aciwtedd cleifion, a chyfleoedd hyfforddiant cyfyngedig a dulliau anghyson o'i ddarparu.

### **Ansawdd a diogelwch**

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod systemau ar waith i fonitro, archwilio a rheoli diogelwch cleifion ac ansawdd yr amgylchedd, gofal a thriniaeth. Fodd bynnag, ni allai AGIC fod yn sicr bob amser bod iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n ymarferol. Mae hyn oherwydd nad yw risgiau bob amser yn cael eu nodi, eu monitro a, lle'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal. Roedd themâu penodol a nodwyd ac argymhellion a wnaed yn hyn o beth yn cynnwys:

- **Rheoli meddyginiaethau** – nid oedd yr holl staff yn deall y gweithdrefnau cywir i'w dilyn o ran storio a rhoi meddyginiaeth ac i sicrhau cydymffurfiaid â pholisi lleol a chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- **Dogfennau** – roedd angen gwelliannau i agweddau ar ofal cleifion, a hefyd bod yr holl staff yn deall egwyddorion a'r angen am safonau cyson uchel o gadw cofnodion
- **Archwilio ac effeithiolrwydd clinigol** – yr angen am fethodolegau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd effeithiol a chydnybodedig, gan weithredu ar sail y canlyniadau a chan gynnwys rhannu canlyniadau gyda chleifion, staff a'r cyhoedd.

## **Astudiaeth Achos 1**

Cynhaliodd AGIC *arolygiad dilynol ar 24 Mawrth 2015*<sup>8</sup> ar ward Penhow, Ysbyty Gwynllyw, Casnewydd. Diben yr ymweliad hwn oedd canfod faint o gynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd i roi sylw i'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn *arolygiad blaenorol AGIC (3 a 4 Rhagfyr 2014)*<sup>9</sup>.

- Roedd safonau hylendid wedi gwella'n sylweddol yn yr arolygiad dilynol hwn. Roedd yr holl fannau lle'r oedd cleifion yn bresennol yn amlwg yn lân, ac roedd y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi'n ffres. Roedd amserlen lanhau'r ward wedi cael ei diwygio a'i gwella, ac roedd yr amgylchedd gofal yn rhydd o annibendod a pheryglon baglu.
- Roedd y bwrdd iechyd a thîm y ward wedi cyflwyno amrywiaeth o systemau a gweithdrefnau i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i ansawdd agweddau ar iechyd a gofal cymdeithasol i gleifion ar Ward Penhow. Roedd hyn fel ymateb uniongyrchol i ganfyddiadau yn ein harolygiad blaenorol ac yn unol â'r Hanfodion Gofal cyfredol.

Nid oedd ward Penhow wedi cael ei defnyddio'n barhaol ers 2012. Roedd hyn yn golygu bod y gweithlu yn y rhan hon o'r ysbyty wedi bod yn amharhaol ac yn ansefydlog. Fodd bynnag, gwnaeth y bwrdd iechyd benderfyniad (Medi 2014) i gadw Ward Penhow ar agor tan fis Hydref 2015 a phenodwyd rheolwr newydd ar gyfer y ward (ar secondiad) bedair wythnos cyn ein harolygiad ym mis Rhagfyr 2014.

<sup>8</sup> [www.hiw.org.uk/opendoc/269009](http://www.hiw.org.uk/opendoc/269009)

<sup>9</sup> [www.hiw.org.uk/agordogfen/259536](http://www.hiw.org.uk/agordogfen/259536)



Canfuwyd gwelliant amlwg gennym yn ystod yr arolygiad dilynol hwn o ran sgiliau, gwybodaeth y gweithlu, a sefydlogrwydd tîm y ward. Roedd defnydd o staff banc ac asiantaeth wedi lleihau, ac roedd y bwrdd iechyd wedi recriwtio pum nyrs gofrestredig ychwanegol yn Ysbyty Gwynllyw, ac roedd rhai ohonynt wedi cael eu neilltuo i Ward Penhow.

Canfuwyd gennym fod gwelliannau wedi cael eu gwneud mewn ymdrech i sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles cleifion yn cael eu hybu a'u diogelu'n ymarferol. Yn fwy penodol, roedd y staff wrthi'n derbyn hyfforddiant ar y defnydd o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd tîm y ward hefyd yn cael ei gefnogi a'i gynghori gan wasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion Hŷn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw gleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.

Ers ein harolygiad cyntaf, roedd yr holl staff ar ward Penhow wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd rhoi meddyginiaethau'n ddiogel a pholisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd. Hefyd, roedd yr holl nyrsys cofrestredig wedi cwblhau rownd gyffuriau dan oruchwyliaeth gyda rheolwr y ward a oedd wedi arwain at ddefnydd cyson o safonau proffesiynol a pholisi'r bwrdd iechyd.

Yn gyffredinol, canfuwyd tystiolaeth gennym fod y bwrdd iechyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion ar ward Penhow.

## Arolygiadau Deintyddol

Cychwynnodd AGIC raglen 3 blynedd o arolygiadau o bob practis deintyddol cyffredinol yng Nghymru yn 2014/15. Arolygwyd 77 o bractisau deintyddol.

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg yn ystod yr ymweliadau hyn:

- Nid oedd rhai practisau yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'u hoffer dadheintio i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. Canfuwyd rhai practisau lle nad oedd yr offer deintyddol perthnasol yn cael ei ddadheintio ar ôl ei ddefnyddio.
- Nid oedd sawl practis yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol yn ymwneud â'r defnydd diogel o offer radiograffig (pelydr-X). Nid oedd staff practisau yn derbyn hyfforddiant priodol bob amser, ac nid oedd ychydig dros chwarter y practisau i ni eu harolygu yn cynnal archwiliadau rheolaidd i gadarnhau bod offer radiograffig yn gweithio'n effeithiol.
- Nid oedd y weithdrefn gwyno yn dros hanner y practisau i ni ymweld â nhw yn cydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG ar gyfer cleifion y GIG. Mewn rhai practisau sy'n eiddo i ddarparwyr corfforaethol yn y DU gyfan, roedd polisïau'n gyffredinol ac nid oeddent wedi cael eu haddasu i'w defnyddio yng Nghymru.



Gwelsom rhai meysydd lle'r oedd arfer da i'w weld hefyd:

- Roedd cofnodion cleifion o ansawdd boddhaol
- Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion pan fyddant yn codi
- Fe'n hysbyswyd gan gleifion ledled Cymru eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn gan eu practis deintyddol yn gyffredinol.

Rydym wedi gweld bod practisau ledled Cymru wedi cymryd camau i wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i gleifion o ganlyniad uniongyrchol i'n harolygiadau.

Cefnogwyd gwelliant gennym hefyd trwy fynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Deintyddol Lleol i gyflwyno ein proses arolygu ac i ateb cwestiynau am sut y gall practisau wella er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol. Aethom i gyfarfod Grŵp Gweithredol Deintyddol Byrddau Iechyd Cymru Gyfan i greu cysylltiadau effeithiol gyda'r byrddau iechyd i gymell gwelliant.

Hefyd, cynhaliwyd trafodaethau gyda Deoniaeth Cymru ar gyfer Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig i sicrhau bod canfyddiadau ein harolygiadau'n cyfrannu at eu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol.

## Arolygiadau Meddygfeydd Teulu

Cwblhaodd AGIC raglen beilot o 34 o arolygiadau o feddygfeydd teulu yn ystod 2014/15.

Yn yr arolygiadau hyn, dewisodd AGIC archwilio'r themâu penodol o gyfathrebu a pharhad gofal, cadw cofnodion, ac ymdrin â chwynion. Hysbyswyd y themâu hyn gan ddogfen Llywodraeth Cymru *'Dysgu at y Dyfodol: Symud ymlaen ac adeiladu ar argymhellion ymchwiliad Robert Powell'*.<sup>10</sup>

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg o'r rhaglen beilot:

- Mae cyfathrebu rhwng ysbytai a meddygfeydd teulu pan gaiff claf ei ryddhau o'r ysbyty yn anaddas yn gyffredinol. Gwelsom dystiolaeth o hysbysiadau rhyddhau gan ysbytai o ansawdd gwael iawn.
- Canfuwyd gennym fod mynediad at apwyntiadau yn broblem i gleifion ledled Cymru.
- Gellid gwella cyfathrebiad â chleifion, yn enwedig y rhai ag anghenion ychwanegol. Nid oedd darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau, gan roi sylw i anghenion iaith a chyfathrebu, wedi cael ei ystyried gan y rhan fwyaf o feddygfeydd.
- Nid oedd y meddygfeydd teulu i ni eu harolygu yn cofnodi cwynion anffurfiol neu lafar fel rheol, ac felly nid oedd tueddiadau neu themâu'n cael eu nodi ac yn cael sylw.



<sup>10</sup> [gov.wales/topics/health/publications/health/reports/powell/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/powell/?skip=1&lang=cy)

Canfuwyd rhai meysydd gennym hefyd lle dilynwyd arferion da:

- Gwelsom fod y broses atgyfeirio o feddygfa teulu i ysbyty yn gweithio'n dda fel rheol. Fe'n hysbyswyd bod effeithlonrwydd wedi cael ei wella ers cyflwyno system electronig
- Yn gyffredinol, roedd cofnodion cleifion yn hawdd eu deall, yn gyfredol ac wedi'u cofnodi'n ddigon manwl i gynnig parhad gofal pe bai claf yn cael ei weld gan wahanol glinigydd
- Roedd y practisau i ni eu harolygu yn ymdrin â chwynion ffurfiol yn unol â'r trefniadau cenedlaethol ar gyfer cwynion y GIG (Gweithio i Wella)
- Roedd y cleifion yn fodlon iawn gyda'r gofal a'r driniaeth y maent yn eu derbyn gan eu meddygfeydd teulu ac yn llawn canmoliaeth i'r staff. Dywedodd cleifion eu bod yn hapus ag amseroedd agor eu meddygfeydd yn gyffredinol.

Gwelsom fod meddygfeydd ledled Cymru'n cymryd camau i wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i gleifion o ganlyniad uniongyrchol i'n harolygiadau.

O ganlyniad i lwyddiant y peilot hwn, mae AGIC wedi ychwanegu arolygiadau o feddygfeydd teulu at ei rhaglen flynyddol erbyn hyn. Rydym hefyd wedi hysbysu Llywodraeth Cymru am ansawdd y wybodaeth ryddhau sydd ar gael i feddygfeydd teulu fel y gellir mynd i'r afael â hyn ledled Cymru.

## **Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYİ(DM))**

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYİ(DM)) 2000 (a'u diwygiadau dilynol yn 2006 a 2011). Rydym yn cyflawni hyn trwy raglen o asesu ac arolygu adrannau clinigol sy'n defnyddio ymbelydredd Ïoneiddio. Rydym hefyd yn adolygu digwyddiadau y cawn ein hysbysu amdanynt sy'n cynnwys 'datguddiadau llawer mwy na fwriadwyd'.



O ystyried natur arbenigol y maes gwaith hwn, mae AGIC yn gweithio gyda Grŵp Datguddiadau Meddygol Iechyd Cyhoeddus Lloegr i sicrhau bod gennym fynediad at gyngor arbenigol i gefnogi elfennau arolygu ac ymchwilio ein gwaith yn y maes hwn.

Cynhaliodd Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) 4 arolygiad cydymffurfiad RhYİ(DM) rhagweithiol o adrannau delweddu diagnostig ar draws pedwar bwrdd iechyd yng Nghymru.

Canfuwyd gennym o'r pedwar arolygiad a gynhaliwyd yn 2014/15 bod amrywiad sylweddol i ba raddau yr oedd y byrddau iechyd a lleoliadau ysbyty penodol yn cydymffurfio â'r RhYİ(DM).

Roedd un o'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg o'n harolygiadau yn ymwneud ag amrywiadau a safonau polisiâu a gweithdrefnau. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr fod â gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith, ond roedd safon y dogfennau hyn yn amrywio.

Roedd safon cofnodion hyfforddiant i ni eu gweld yn ystod ein hymweliadau'n amrywio'n fawr iawn. Roedd cofnodion ar gael ar bob safle mewn rhai byrddau iechyd, ond roeddent yn aml mewn gwahanol fformat, tra bod cofnodion cynhwysfawr ar waith ac yn gyfredol mewn eraill.

Roedd tystiolaeth eglur bod archwilio clinigol yn digwydd ym mhob un o'r safleoedd i ni ymweld ag ef. Fodd bynnag, yn yr un modd â phethau fel cofnodion hyfforddiant, roedd dulliau a safonau archwilio'n amrywio'n sylweddol. Roedd y rhan fwyaf o'r archwiliadau'n tueddu i gael eu cynnal gan radiolegwyr mewn rhai ardaloedd. Nid oedd rhaglen archwilio benodol mewn eraill, ond roedd archwiliadau yn cael eu cynnal, ac roedd cydgysylltiad effeithiol ac effeithlon o archwiliadau mewn eraill, a oedd yn darparu manylion cefndir, cyd-destun a chanlyniadau eglur wedi'u dilyn gan rannu'r hyn a ddysgwyd.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad manwl ar ein gwaith RhYI(DM) yn ystod haf 2015 a fydd yn cynnig dadansoddiad mwy trylwyr fel sail ar gyfer rhannu arfer da a nodedig.

## Adolygiadau Marwolaeth yn y Ddalfa

Mae AGIC wedi cwblhau deg adolygiad clinigol ar ran yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf ers mis Ebrill 2014. O'r rhain, bu saith marwolaeth o achosion naturiol ac roedd tair marwolaeth yn achosion o hunanladdiad.

Amlygwyd cyfres o faterion yn yr adolygiadau clinigol unigol a gynhaliwyd gan AGIC. Fodd bynnag, mae'r themâu allweddol yn ymwneud â rheoli cofnodion, rheoli clefydau cronig, cyfathrebiad, ac apwyntiadau a ganslwyd rhwng y carchardai a'r ysbytai lleol.

Cafodd y cysylltiadau ag arweinwyr polisi ar gyfer Iechyd Troseddwyr yn Llywodraeth Cymru eu gwella gennym yn ystod 2014/15, i sicrhau'n benodol y rhennir materion sy'n deillio o'n hadolygiadau gyda nhw. Rydym hefyd wedi rhoi system ddilynol ar waith i sicrhau bod byrddau iechyd yn cael eu hysbysu'n ffurfiol am unrhyw faterion sy'n codi iddynt roi sylw iddynt o'n hadolygiadau clinigol.

Mae AGIC wedi rhannu'r canfyddiadau o'n hadolygiadau Marwolaeth yn y Ddalfa wrth i'r *'Independent Review into Self-Inflicted Deaths in NOMS Custody of 18–24 year olds'*<sup>11</sup> gael ei gynnal gan yr Arglwydd Harris. Rydym hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith Gwella Gofal Iechyd mewn Carchardai fel mater o drefn. Ceir mecanwaith arall lle mae AGIC yn rhannu'r hyn a ddysgir o'n hadolygiadau clinigol i wella canlyniadau i eraill.

<sup>11</sup> <http://iapdeathsincustody.independent.gov.uk/harris-review/>

## Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyhoeddodd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru *'Trosolwg o'r Trefniadau Llywodraethu: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Crynodeb o'r cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed ym mis Mehefin 2013'*<sup>12</sup> yn 2014.

Adolygiad dilynol oedd hwn i'r adroddiad blaenorol a gyhoeddwyd yn 2013, gyda'r nod o asesu cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd o ran yr argymhellion.

Er i'n hadroddiad dilynol nodi tystiolaeth o gynnydd, rhywfaint ohono'n sylweddol, roedd nifer o'r heriau sylfaenol a nodwyd yn ystod 2013 yn dal i fodoli, ac roedd gan y bwrdd iechyd lawer o waith i'w wneud o hyd cyn y gellid ystyried bod ei drefniadau llywodraethu a rheoli yn gwbl addas at y diben.

Wedi hynny, yn rhannol o ganlyniad i'r diffyg cynnydd a ganfuwyd yn ein hadolygiad, gwnaed Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn destun 'ymyrraeth wedi'i thargedu' mewn cyfarfod *Trosglwyddo i Lefel Uwch ac Ymyrryd yn y GIG*<sup>13</sup> a gynhaliwyd ym mis Hydref 2014. Codwyd y statws trosglwyddo hwn i lefel uwch ymhellach mewn cyfarfod Trosglwyddo i Lefel Uwch ac Ymyrryd yn y GIG eithriadol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2015; argymhellwyd yno y dylid gwneud y bwrdd iechyd yn destun Mesurau Arbennig.

O ganlyniad, mae AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith dilynol eto yn ystod 2015/16, i asesu pa gynnydd mae'r bwrdd iechyd wedi ei wneud o ran sawl maes allweddol, sy'n cynnwys:

- Llywodraethu, arweinyddiaeth a throsolwg
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd
- Gwasanaethau meddygon teulu a gofal sylfaenol, gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau
- Ailgysylltu â'r cyhoedd ac adennill hyder y cyhoedd.

### Rhagor o Wybodaeth

Cyhoeddir adroddiadau ar bob un o'n harolygiadau ar ein gwefan o dan *Dod o hyd i adroddiadau ac adolygiadau*.<sup>14</sup>



<sup>12</sup> [www.hiw.org.uk/agordogfen/243831](http://www.hiw.org.uk/agordogfen/243831)

<sup>13</sup> <http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/escalation/?skip=1&lang=cy>

<sup>14</sup> [www.hiw.org.uk/mapdogfennau/](http://www.hiw.org.uk/mapdogfennau/)



# Rheoleiddio Gofal Iechyd Annibynnol

Trwy gofrestru ac arolygu, rydym yn rheoleiddio'r sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a rheoliadau cysylltiedig â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Cofrestrodd AGIC 24 o leoliadau newydd yn 2014/15, ac roedd y rhain yn amrywio o ysbytai iechyd meddwl i wasanaethau laser a golau pwls dwys. Roedd y lleoliadau hyn hefyd yn cynnwys ysbyty iechyd meddwl plant a'r glasoed, clinig enwaedu crefyddol, gwasanaeth sy'n gwneud gwaith ymchwil clinigol, ac asiantaeth sy'n darparu ymgynghoriadau a thriniaeth telefeddygaeth ar gyfer

problemau dermatolegol ac alergedd. Hefyd, cofrestrodd AGIC 12 rheolwr newydd lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd a saith amrywiad mawr i gofrestriadau cyfredol. Gall AGIC hefyd gofrestru deintyddion preifat unigol. Cofrestrwyd 127 deintydd newydd gennym yn 2014/15, sydd bellach yn gallu darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru.

Yn rhan o'r broses gofrestru, mae AGIC yn cynnal cyfweiliadau gydag ymgeiswyr, yn ymweld â'r safle, ac yn craffu ar bolisiau a gweithdrefnau'r gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Bydd AGIC yn cofrestru gwasanaeth dim ond os bydd yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio ac y gall barhau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau. Caiff cofrestriad ei ganiatáu os gall y gwasanaeth ddangos hyn. Trwy wneud hyn, gall AGIC sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ar gyfer y bobl sy'n ei ddefnyddio ar y pwynt cofrestru.

Hefyd, gwnaeth AGIC waith ymchwilio i wybodaeth a dderbyniwyd gennym am leoliadau sy'n darparu gwasanaethau nad oeddent wedi'u cofrestru. Arweiniodd y gwaith hwn at ddeg ymweliad dirybudd â'r lleoliadau hyn. Diben yr ymweliadau hyn oedd darganfod a oedd gwasanaethau cofrestradwy'n cael eu darparu ac i hysbysu bod gwneud hynny'n drosedd y gallent gael eu herlyn amdano.

## Themâu allweddol

Cynhaliodd AGIC 26 o arolygiadau ac ymweliadau â gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystod 2014/15. Cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith gennym lle nodwyd pryderon arwyddocaol. Cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith ar ddeg achlysur.

Rydym ni'n darganfod nifer o broblemau yn y mwyafrif o arolygiadau. Cododd nifer o themâu allweddol yn ystod yr ymweliadau hyn.



## Llywodraethu

O'r rhai yr ymwelwyd â nhw, roedd angen i dri chwarter y gwasanaethau wella er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethau a rheoli parhaus effeithiol ar waith. Er enghraifft, canfuwyd gennym fod angen diweddarau ffeiliau personél staff a diwygio polisiâu a gweithdrefnau. Canfuwyd gennym mewn rhai achosion bod gan y staff ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bolisiâu'r sefydliad sy'n llywio eu gwaith o ddydd i ddydd. Canfuwyd gennym fod gwerthusiadau staff, hyfforddiant gorfodol, a goruchwyliaeth glinigol reolaidd wedi cael eu cwblhau ond heb eu cofnodi, neu heb gael eu cwblhau. Mae'r meysydd hyn yn bwysig i gynorthwyo a chynnal ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir, ac i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin gan staff sydd â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

## Gofal Diogel ac Effeithiol

Canfuwyd gennym yn tua thri chwarter o'r gwasanaethau i ni eu harolygu bod angen gwelliannau i sicrhau y darperir gofal diogel ac effeithiol. Er enghraifft, canfuwyd gennym fod angen adolygu'r trefniadau a'r dogfennau yn ymwneud â rhoi meddyginiaeth. Roedd angen gwelliannau i gofnodion cleifion er mwyn sicrhau bod asesu a chynllunio gofal cyfredol yn cael eu gwneud a bod cofnodion yn cael eu cadw.

Mae gwaith cadw cofnodion a rheoli meddyginiaethau da yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Canfuwyd gennym hefyd bod angen gwelliannau mewn rhai achosion i drefniadau rheoli heintiau, gan gynnwys polisiâu ac amserlenni glanhau. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu rhag croes-heintio.

## Safle ac Amgylchedd

Canfuwyd gennym yn dros dri chwarter y gwasanaethau i ni eu harolygu bod angen gwelliannau i'r safle ac i'r amgylchedd. Er enghraifft, canfuwyd gennym nad oedd asesiadau risgiau tân yn cael eu cynnal bob amser, ac nid oedd profion cyfredol a rheolaidd ar larymau tân a goleuadau brys yn cael eu cwblhau bob amser. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod mesurau diogelwch ac atal tân priodol ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag y perygl o dân. Canfuwyd achosion gennym hefyd lle na chynhaliwyd archwiliadau o nwy, gwifrau trydanol ac offer cludadwy yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod offer a chyfleusterau a ddefnyddir yn y gwasanaeth yn ddiogel i'w defnyddio.

## Meysydd o Arfer Da

Gwelsom rai meysydd o arfer da hefyd. Er enghraifft, canfuwyd gennym mewn gwasanaeth cyngor gofal iechyd bod y staff yn darparu lefelau uchel o ofal a thosturi sy'n canolbwyntio ar y claf, gan neilltuo llawer iawn o amser i ddiwallu anghenion cleifion unigol. Cynhaliwyd preifatrwydd ac urddas cleifion bob amser. Cawsom sgwrs gydag un claf a ddywedodd ei bod wedi cael ei thrin gyda sensitifrwydd a thosturio o'r cychwyn i'r diwedd. O'i chyswllt cyntaf â'r ganolfan, roedd wedi bod o'r farn bod y staff yn broffesiynol a pharod eu cymwynas a'i bod wedi cael ei sicrhau am gyfrinachedd. Roedd y claf yn hyderus bod ansawdd ei gofal o safon uchel a bod staff meddygol a nyrsio'n gymwys a gwybodus; roeddent yn esbonio popeth ac yn gallu ateb ei holl gwestiynau a phryderon.



Roedd enghraifft arall o arfer da i ni ei chanfod mewn ysbyty'n arbenigo mewn triniaeth bediatrig. Cyfwelwyd plant, teuluoedd a'r staff sy'n gofalu amdanynt ar bob cam o'r daith gofal iechyd, a chanfuwyd gennym fod safon uchel o ofal emosiynol sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r teulu yn cael ei darparu gan staff â chymwysterau a phrofiad priodol. Roedd cyfathrebu a rhyngweithio'r staff gyda'r plant yn dda, a rhoddwyd gofal ychwanegol i blant a rhieni nerfus neu orbryderus. Gwelwyd arfer eithriadol yn yr ystafell anesthetig cyn ac yn ystod proses gynefino ag anesthetig plentyn nerfus. Roedd y cyfathrebu'n effeithiol, yn briodol i oedran y plentyn, ac yn tawelu pryderon y plentyn a'r rhiant. Roedd yr amgylchedd gofal yn rhagorol o ran yr amrywiaeth o ddillad gwely priodol i oedrannau oedd ar gael a'r amrywiaeth o ddeunyddiau chwarae a thynnu sylw a ddarparwyd. Roedd y plant a'r teuluoedd a gyfwelwyd yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd. Dywedodd yr holl rieni fod gofal a thriniaeth eu plant naill ai bodloni eu disgwyliadau neu'n rhagori arnynt.

### Astudiaeth Achos 1

Yn dilyn arolygiad o ysbyty annibynnol yn 2014, derbyniwyd adborth cadarnhaol gan reolwr yr ysbyty, a ddywedodd sut y mae arolygiadau AGIC wedi helpu i sicrhau gwelliant yn y gwasanaeth. O ganlyniad i sawl blwyddyn o waith caled gan y staff a'r rheolwyr i wneud gwelliannau, ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaid â'r rheoliadau yn yr arolygiad diwethaf gan AGIC yn 2014.

*'Roedd arolygiad trylwyr yn fwy na gwerthfawr i mi gan ei fod yn rhoi llinell sylfaen i mi gan roi mwy o ddealltwriaeth i mi o'r safonau gofynnol y mae angen i mi eu cyrraedd neu eu cynnal.'*

*'Cyn yr arolygiadau, anaml yr oeddwn i'n cysylltu ag AGIC oni bai bod gen i broblem yr oedd angen i mi ei rhannu. Felly, rwy'n teimlo bod fy mherthynas ag AGIC wedi gwella'n fawr gan fy mod i'n fwy tebygol o gysylltu ag AGIC am gyngor, cymorth neu sicrwydd, ac nid i rannu gwybodaeth negyddol yn unig.'*

*'Yn gyffredinol, mae'n rhaid i mi ddweud ein bod yn falch bod ein perthynas gydag AGIC wedi datblygu yn dilyn ein pedwar arolygiad diweddar, ac rwyf i'n bersonol ac rydym ni fel ysbyty wedi cael llawer o wybodaeth am y safonau gofynnol cenedlaethol ac wedi bod o'r farn bod yr arolygiadau'n brofiad cadarnhaol a fuddiol yn gyffredinol.'*

### Astudiaeth Achos 2

Yn ystod arolygiad cychwynnol o hosbis, nodwyd gennym fod sawl maes yr oedd angen eu gwella gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer rhoi a chofnodi cyffuriau a reolir, cwblhau hyfforddiant gorfodol, a rhannau o'r safle/cyfleusterau er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu ac yn derbyn gofal diogel. Oherwydd y problemau a nodwyd, cynhaliwyd arolygiad dilynol lle gwelsom fod cynnydd parhaus wedi cael ei wneud ac y cymerwyd camau o ran y problemau'n ymwneud â'r safle. Hefyd, roedd aelod newydd o staff wedi cael ei gyflogi'n benodol i adolygu systemau, fel polisiau a gweithdrefnau, a gweithredu a/neu ailsefydlu rhaglenni, gan gynnwys diweddariadau hyfforddiant gorfodol.

### Rhagor o Wybodaeth

Cyhoeddir adroddiadau ar bob un o'n harolygiadau ar ein gwefan o dan *Dod o hyd i adroddiadau ac adolygiadau*<sup>15</sup>

<sup>15</sup> [www.hiw.org.uk/mapdogfennau/](http://www.hiw.org.uk/mapdogfennau/)

# Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

## Arolygiadau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y GIG. Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru. Mae'r arolygiadau hefyd yn cyflawni ein cyfrifoldeb deddfwriaethol i fonitro Rhannau 2 a 4 Mesur Iechyd Meddwl 2010 trwy adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth unigol er mwyn sicrhau y penodir cydgysylltydd gofal ar gyfer cleifion a bod cleifion yn cael asesiad iechyd meddwl a chorfforol cynhwysfawr.

Adolygwyd ein llawlyfrau yn ystod 2014/15 i sicrhau yn gyntaf bod ein canolbwynt yn dal i fod yn briodol a bod diweddiadau i ddeddfwriaeth yn cael eu hadlewyrchu. Yr ail reswm oedd symleiddio ein llawlyfrau fel un gyfres o ddogfennau sy'n galluogi pob agwedd ar ein gwaith i gael ei chynnwys yn ystod ymweliadau monitro ac arolygu. Cyhoeddwyd y *gyfres lawn o weithlyfrau*<sup>16</sup> ar ein gwefan ym mis Mehefin 2015, a byddwn yn parhau i'w hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn dal i ganolbwyntio ar wasanaethau sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd sy'n canolbwyntio ar y claf.

Newidiodd y ffordd rydym yn hysbysu ysbytai am ein canfyddiadau o lythyrau rheoli i adroddiadau. Mae ein hadroddiadau'n cynnig mwy o gyd-destun i'n hymweliadau ac yn galluogi darllenwyr i gael gwybodaeth fwy trylwyr am y lleoliad, ein canfyddiadau, ein hargymhellion, a'r camau nesaf. Rydym yn gofyn i bob ysbyty ddarparu cynllun gweithredu yn amlinellu sut a phryd y byddant yn cyflawni'r argymhellion, ac rydym yn monitro cynnydd yn unol â hynny. Cyhoeddir ein holl adroddiadau, cynlluniau gweithredu, a chynlluniau gweithredu wedi'u diweddarau ar ein gwefan.

Rydym wedi cyflwyno 17 llythyr sicrwydd ar unwaith trwy'r flwyddyn arolygu hon, sydd wedi ein galluogi i gael sicrwydd cyflymach am rai o'r canfyddiadau mwy brys o'n hymweliadau.

Nodwyd nifer o themâu gennym yn ystod ein harolygiadau y llynedd, yn ymwneud â niferoedd staffio isel, diffyg hyfforddiant mewn meysydd allweddol gan gynnwys ataliaeth cleifion, diffyg gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu (roedd hon yn broblem arbennig yn y GIG), diffyg gweithgareddau hamdden a chymdeithasol i gleifion, diffyg polisïau a gweithdrefnau sylfaenol, a diffyg prosesau llywodraethu ac archwilio clinigol cadarn.

<sup>16</sup> [www.hiw.org.uk/mental-health-workbooks](http://www.hiw.org.uk/mental-health-workbooks)

## Staffio

Rydym wedi nodi diffyg niferoedd staff priodol ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn derbyn gofal ar draws ysbytai'r GIG a'r sector annibynnol. Mae hyn wedi arwain at nifer o broblemau i gleifion, ac yn benodol:

- rhai cleifion yn methu â mynd ar *seibiant Adran 17*<sup>17</sup>
- rhai cleifion yn ofni am eu diogelwch oherwydd lefelau staffio anfoddfaol
- rhai cleifion ddim yn derbyn amser un i un rheolaidd gyda'u nyrs benodol
- rhai cleifion yn methu â chymryd rhan mewn gweithgareddau gan nad oes digon o staff ar gael i'w hwyluso
- staff yn methu â chymryd eu hegwyliau gan nad oes cymorth wrth gefn ar gael.



## Hyfforddiant

Rydym wedi nodi bylchau mewn hyfforddiant staff ar draws ysbytai'r GIG ac ysbytai annibynnol, ond mae cydymffurfiad â gofynion hyfforddiant gorfodol yn well yn y sector annibynnol na'r GIG. Ystyriwyd bod gan bron i bob ysbyty'r GIG i ni ei arolygu gydymffurfiad gwael yn erbyn nifer o feysydd hyfforddiant, gan gynnwys y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Deddf Iechyd Meddwl 1983, hyfforddiant ataliaeth, a chodi a chario. Gall y diffyg o ran sgiliau staff gael effeithiau andwyol ar ofal cleifion.

## Cynnal a Chadw

Mae problemau cynnal a chadw yn thema sylfaenol sy'n codi ar draws ysbytai'r GIG a rhai ysbytai'r sector annibynnol. Bu problemau cynnal a chadw mwy sylweddol yn ysbytai'r GIG i ni eu harolygu, yn gofyn am atgyweiriadau mwy cymhleth sydd wedi cael effaith amlwg ar yr ysbyty, y staff a'r grŵp cleifion. Rydym wedi nodi ar nifer o achlysuron ar draws ysbytai'r GIG bod y diffyg ymateb o ran hysbysu am broblemau cynnal a chadw wedi arwain at waethgiad sylweddol i'r safle. Mae pryderon yr ydym wedi eu codi a'u nodi yn amrywio o gyfleusterau wedi torri, gan gynnwys peiriannau golchi a drysau, ac ardaloedd cleifion budr ac anniben, gan gynnwys gerddi a chyrtau cleifion, i bethau mwy sylweddol fel toeau yn gollwng, problemau gyda cheblau trydan, a theils nenfwd wedi torri/ar goll. Hefyd, ceir problem gyda dadgomisiynu hen ysbytai seiciatrig mawr mewn nifer o fyrddau iechyd, wrth i ddyddiadau ar gyfer cau'n gyfan gwbl gael eu diwygio am flynyddoedd lawer. Bu diffyg gwaith cynnal a chadw priodol yn yr ysbytai hyn ers nifer o flynyddoedd, ac mae sawl ward mewn cyflwr difrifol erbyn hyn, er bod cleifion yn dal i gael eu derbyn yno.

## Gweithgareddau

Mae diffyg gweithgareddau hamdden a chymdeithasol yn thema sy'n codi dro ar ôl tro, a cheir pryder arbennig ar benwythnosau, pan nad yw'r holl broffesiynau'n gweithio i ddarparu a chefnogi gweithgareddau cleifion.

<sup>17</sup> [www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1983/20/section/17](http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1983/20/section/17)

## Polisiau a Gweithdrefnau

Yn ystod adolygiadau o nifer o fyrddau iechyd, ac un yn arbennig, bu problemau gyda diffyg polisiau a gweithdrefnau gwydn a chlinigol gadarn i staff eu dilyn. Mae hyn yn annerbyniol ac nid yw'n rhoi'r lefel o amddiffyniad a hyder i gleifion, staff ac eraill o ran y gofal y maent yn ei dderbyn.

## Llywodraethu ac Archwilio Clinigol

Nodwyd nifer o broblemau sylweddol iawn gan AGIC yn ystod y broses o arolygu darparwyr y GIG a phreifat. Rydym yn poeni bod darparwyr y GIG a phreifat yn dibynnu ar arolygiadau AGIC i nodi meysydd o arfer gwael ac o bryder, ond, yn hytrach, y dylai fod ganddynt brosesau llywodraethu cadarn ar waith i nodi'r problemau eu hunain a chymryd camau priodol.

## Meysydd o Arfer Nodedig

Rydym wedi nodi nifer o feysydd o arfer nodedig trwy gydol ein hymweliadau arolygu iechyd meddwl ac anabledd dysgu, gan gynnwys:

- Mae lefel y mewnbwn seicoleg ar draws y sector annibynnol yn nodedig
- Mae'r cynnydd i nifer ysbytai'r GIG sy'n gweithio tuag at achrediad allanol, gan gynnwys Achrediad ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cleifion Mewnol (AIMS), Star Wards a Safewards, a'u hennill, i'w gymeradwyo
- Mae rhai ysbytai annibynnol wedi ac wrthi'n buddsoddi'n ariannol yn eu gwasanaethau ac yn gwneud gwelliannau ailwampio helaeth i lety cleifion
- Mae tîm amlddisgyblaethol yn gweithio ar draws ysbytai'r GIG ac ysbytai annibynnol yn gyffredinol effeithiol a chynhwysol o bob disgyblaeth broffesiynol sy'n bresennol, ac mae anghenion cleifion yn flaenllaw mewn trafodaethau a chanlyniadau
- Mae pa mor agored yw staff a chleifion i ymgysylltu â'r broses arolygu ar draws ysbytai'r GIG ac ysbytai annibynnol yn dda iawn yn gyffredinol.

## **Monitro'r Defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Mae gan AGIC gyfrifoldebau penodol am fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Cynhaliwyd 77 o ymweliadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl gennym trwy gydol 2014/15. Cynhaliwyd cyfanswm o 59 o'r ymweliadau hyn yn rhan o'n hadolygiadau iechyd meddwl trylwyr. Ni chanfuwyd unrhyw fethiannau cyson gennym o ran y Ddeddf ledled Cymru. Ceir cydymffurfiad uchel iawn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gyffredinol yn y GIG a'r sector annibynnol. Os nodir unrhyw broblemau yn ystod ein harolygiadau, mae'r darparwyr yn cymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau'n brydlon a hysbysu'r claf yn ôl y gofyn.

Mae sefydliadau sy'n defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn defnyddio dogfennau statudol i helpu i sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf. Pan na fydd Llywodraeth Cymru wedi rhagnodi dogfennau statudol, mae byrddau iechyd a darparwyr annibynnol wedi sefydlu eu ffurflenni rhagnodedig eu hunain i sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf a bod canllawiau'r Cod Ymarfer yn gyson ar draws eu sefydliadau.

Fodd bynnag, nodwyd bod yna dystiolaeth i awgrymu bod gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl (a sefydlwyd gan y byrddau iechyd a darparwyr annibynnol i sicrhau bod y sefydliadau'n cydymffurfio â mesurau diogelu cleifion o dan y Ddeddf) yn cael eu hymestyn i gyflawni eu swyddogaeth o sicrhau y cydymffurfir â mesurau diogelu cleifion, h.y. apeliadau yn erbyn achosion o gadw cleifion, darparu gwaith monitro hawliau, mesurau diogelu caniatâd i driniaeth ac ati, ar gyfer cleifion mewnol a chleifion yn y gymuned sy'n destun Gorchmynion Triniaeth Gymunedol.

Hefyd, ceir diffyg systemau electronig unedig ar draws wahanol fyrddau iechyd ac asiantaethau allanol fel awdurdodau lleol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a'r heddlu, y gallai pob un ohonynt fod yn gysylltiedig â'r claf.

## **Gweithgareddau Eraill**

Cefnogwyd gwelliannau mewn nifer o feysydd mewn amrywiaeth o ffyrdd gennym hefyd yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, gwelsom arolygiad a gynhaliwyd gan Dîm Gwella a Sicrhau Ansawdd GIG Cymru er mwyn rhannu methodolegau a dysgu o ddulliau ei gilydd. Rydym hefyd wedi gwneud nifer o ddarnau o waith gydag amrywiaeth o awdurdodau lleol, yr heddlu, a byrddau iechyd lleol o ran diogelu lles cleifion. Roedd y darnau gwaith hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed penodol lle efallai y bu diffyg cydymffurfiad â rheoliadau gan ddarparwyr gofal iechyd annibynnol.

Hefyd, roeddem yn bresennol mewn pum rhwydwaith gwybodaeth lleol i rannu gwybodaeth am gyffuriau a reolir. Mae AGIC hefyd yn cynnal rhestr o swyddogion atebol o ran cyffuriau a reolir ar gyfer y byrddau iechyd a darparwyr annibynnol. Yr unigolion hyn yw'r unigolyn cyswllt sydd â chyfrifoldeb statudol o ran y cyffuriau hyn.

## Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Caiff maes cleifion a allai fod yn destun Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ei ystyried o fewn y broses o adolygu'r GIG a darparwyr preifat. Caiff y gwaith papur perthnasol, gan gynnwys asesiadau cleifion unigol, ei archwilio i sicrhau bod proses gadarn ar waith i ddiogelu cleifion yn briodol.

Rydym yn gweithio ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar y maes gwaith hwn. Rydym wedi gweithio ar y cyd ag AGCCC ar yr *adroddiad monitro blynyddol*<sup>18</sup> a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015 ac wrth gynnal *'Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru'*<sup>19</sup> a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd.

Roedd hwn yn cyd-daro â chynhadledd genedlaethol a roddodd i gynadleddwyr y wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa gyfreithiol o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, canfyddiadau o'r adolygiad cenedlaethol, a golwg ar gynlluniau a bwriadau'r dyfodol.

Mae AGIC hefyd yn mynychu grŵp arweinyddiaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i drafod newidiadau deddfwriaethol ac arfer da.


## Adolygu Dynladdiadau

Mae AGIC yn gyfrifol am gynnal adolygiadau allanol annibynnol o ddynladdiadau pan fo'r cyflawnwr yn ddefnyddiwr gwasanaethau iechyd meddwl. Mae AGIC yn gwneud hyn fel bod y cyrff sy'n gyfrifol ac yn ymwneud â gofal, triniaeth a chymorth i'r unigolion yn cael eu nodi ac y gellir gwneud gwelliannau angenrheidiol.

Cyhoeddodd AGIC ddau adolygiad o ddynladdiadau a gyflawnwyd gan unigolion yr oedd gwasanaethau iechyd meddwl yn ymwybodol ohonynt yn ystod 2014/15. Derbyniodd y ddau adolygiad hyn sylw sylweddol pan y'u cyhoeddwyd.

Er bod y ddau'n amlygu materion a oedd yn benodol i'r achosion unigol, roedd rhai materion cyffredinol gyffredin:

- Roedd cyfathrebu'n ffactor yn y ddau achos, pa un a oedd yn ymwneud â chyfathrebu rhwng gwasanaethau neu rhwng y rhai a oedd yn gweithio mewn gwasanaethau
- Roedd yn anodd ymgysylltu â'r unigolion yn y ddau achos
- Methiant i gadw at feddyginiaeth/diffyg cydymffurfiaid â thriniaeth
- Roedd gan y ddau ddiffyg dealltwriaeth o'u cyflwr
- Dim bygythiadau wedi'u cofnodi i aelodau'r cyhoedd



<sup>18</sup> [www.hiw.org.uk/agordogfen/259901](http://www.hiw.org.uk/agordogfen/259901)

<sup>19</sup> [www.hiw.org.uk/agordogfen/251577](http://www.hiw.org.uk/agordogfen/251577)



- Roedd cynllunio rhyddhad gwael yn ffactor yn y ddau achos
- Nodwyd diffygion sefydliadol a systemig.

Roedd yn anodd penderfynu a oedd modd rhagweld y digwyddiadau trasig yn y ddau achos. Ni amlygodd y naill achos na'r llall unrhyw berygl sylweddol blaenorol i eraill, a gallai'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd i'r unigolion hyn fod wedi bod yn well yn y ddau achos, ond nid oes unrhyw sicrwydd pendant y byddai hyn wedi atal unrhyw ddigwyddiad trasig.

Er mwyn cynorthwyo i sicrhau y rhennir yr hyn a ddysgwyd o'r digwyddiadau trasig hyn, cyflwynodd AGIC y themâu a'r canfyddiadau allweddol i'r adolygiadau hyn mewn digwyddiad 'Rhannu'r Hyn a Ddysgwyd o Ddigwyddiadau Anffafriol mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cenedlaethol' a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2015. Hwylusir y digwyddiadau hyn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac maent yn cynnwys gweithwyr proffesiynol uwch a thimau digwyddiadau mewn gwasanaethau iechyd meddwl o bob cwr o Gymru. Mae'r cyfarfodydd yn cynnig amgylchedd lle gellir rhannu problemau a gwersi. Mae AGIC yn gyfrannwr allweddol at y digwyddiadau a'r cyfarfodydd hyn.

Cynorthwywyd AGIC gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd i ddatblygu prosiect 'cau'r bwlch' peilot lle gwnaed gwaith dilynol ar gamau a nodwyd yn dilyn adolygiad o ddynladdiad, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith. O ganlyniad, bydd AGIC yn parhau â'r dull hwn a'i ddefnyddio ar gyfer y ddau adolygiad o ddynladdiadau a gyhoeddwyd yn 2014/15, er mwyn sicrhau bod argymhellion yr adolygiadau hyn yn cael sylw llawn.

Nodwyd ac amlygwyd y gwaith hwn o rannu'r hyn a ddysgwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fel enghreifftiau rhagorol o ddysgu a rhannu gwybodaeth o ymchwiliadau yn ei adroddiad ***'Atal Marwolaethau wrth Gadw Oedolion â Chyflyrau Iechyd Meddwl: Ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol'***,<sup>20</sup> a gyhoeddwyd ar 23 Chwefror 2015.

Er mwyn deall effaith y 13 o adolygiadau o ddynladdiadau a gyhoeddwyd gan AGIC ers 2007 yn llawn, mae Cynllun Gweithredol AGIC yn datgan y byddwn yn llunio adroddiad thematig ar wersi a ddysgwyd o ymchwiliadau blaenorol i ddynladdiadau yn ystod 2015/16. Bydd y gwaith hwn yn asesu'r effaith y mae adroddiadau AGIC, a'r argymhellion a gyhoeddwyd ers 2007, wedi ei chael ar wasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

<sup>20</sup> [www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/uploads/Wales/PDFs/Adult Deaths Inquiry Report Welsh.pdf](http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/uploads/Wales/PDFs/Adult%20Deaths%20Inquiry%20Report%20Welsh.pdf)



# Goruchwyllo Bydwagedd

Mae AGIC yn cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ac felly'n gyfrifol am sicrhau bod goruchwyllo statudol o bob bydwaig yn cael ei chyflawni i safon foddhaol ledled Cymru. Bu newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y cyfrifoldebau hyn eu cyflawni yn 2014/15 wrth i fodol goruchwyllo newydd gael ei gyflwyno ar 4 Awst 2014. Nod cyffredin y model newydd oedd gwella ansawdd goruchwyllo statudol yng Nghymru trwy benodi goruchwylwyr, i weithio'n llawn amser fel goruchwylwyr bydwagedd, ar batrwm cylch am gyfnod o 18 mis. Mae'r goruchwylwyr bydwagedd wedi'u hymrwymyo i'r swyddogaeth oruchwyllo gan gynyddu eu hamlygrwydd a'u hygyrchedd i fydwragedd a defnyddwyr gwasanaeth.



Un mater y bwriadwyd i'r model newydd fynd i'r afael ag ef oedd gwella ansawdd y broses Adolygiadau Goruchwyllo Blynyddol a chydymffurfiad â hi. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi cyflwyno'r syniad o oruchwyllo grŵp yn hytrach na chyfarfod 1:1 rhwng y goruchwyllo bydwagedd a'r fydwaig. Mae'r cyflwyniad hwn wedi bod yn llwyddiant heb ei ail gan ennill cefnogaeth llawer o fydwragedd a rhai goruchwylwyr bydwagedd yr oedd ganddynt amheuan am y syniad i gychwyn. Mae gwerthuso rheolaidd ar ôl pob un o'r sesiynau wedi nodi agweddau cadarnhaol fel dysgu gan eraill, gan ddarganfod am yr heriau a wynebier gan grwpiau staff eraill. Ceir astudiaeth fach ar hyn o bryd yn gwerthuso'r canlyniadau fel rhagflaenydd i ailddilysiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i fydwragedd a nyrsys. Yn ogystal â'r manteision i fydwragedd a goruchwylwyr, mae'r cysyniad goruchwyllo grŵp wedi cael effaith gadarnhaol ar y cydymffurfiad â'r broses Adolygiadau Goruchwyllo Blynyddol. Roedd cydymffurfiad o 100% â'r broses Adolygiadau Goruchwyllo Blynyddol ar 31 Mawrth 2015, ac ar adeg yr adroddiad hwn, roedd Adolygiadau Goruchwyllo Blynyddol 99.2% o fydwragedd yng Nghymru wedi cael eu lanlwytho i gronfa ddata'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol. Mae hon yn effaith gadarnhaol o weithrediad y model newydd yn dangos tuedd ar i fyny o'r flwyddyn flaenorol o 97% a adroddwyd i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Gan adeiladu ar y cysyniad o oruchwyllo grŵp, mae'r model hefyd wedi cyflwyno sesiynau grŵp cadw cofnodion i adolygu cofnodion gan gymheiriaid, proses sy'n cynnig amgylchedd braf i archwilio'r pwnc difrifol iawn o ddiffygion o ran safonau cadw cofnodion. Mae'r sesiynau dysgu gweithredol hyn wedi cael croeso da, a gwerthuswyd eu bod yn symud y pŵer i'r bydwagedd gymryd cyfrifoldeb am y broblem yn hytrach nag ymarfer ticio bocsys a oedd wedi methu â gwneud gwelliannau parhaus hyd yn hyn.

Mae'r model newydd hefyd yn cynnig manteision i fydwragedd dan hyfforddiant a bydwagedd sydd newydd gymhwyso, sy'n cael tri chyswllt â goruchwylwyr bydwagedd yn ystod y flwyddyn yn hytrach na threfniadau ad hoc iawn o dan y model blaenorol. Mae'r tîm o oruchwylwyr yn adeiladu ar y cymorth i fydwragedd sydd newydd gymhwyso trwy lunio rhaglen preceptorïaeth Cymru gyfan i gynorthwyo bydwagedd i atgyfnerthu eu harfer yn eu blwyddyn gyntaf fel bydwaig sydd newydd gael ei phenodi.

Roedd ymchwilio i ddiwyddiadau a chwynion lle gallai arfer bydwreigiaeth fod wedi bod yn waeth na'r disgwyl yn her arbennig o ran y model traddodiadol wrth fodloni amserlen 45 diwrnod ac ansawdd y broses a'r adroddiad ymchwilio. Mae'r Awdurdod

Goruchwylio Lleol yn falch gyda'r cynnydd o gyflawni 75% o ymchwiliadau yn unol â'r amserlen, a disgwylir cynnydd pellach ar ôl i'r model gael ei ymsefydlu'n dda. Mae penaethiaid bydweigiaeth, goruchwylwyr bydwragedd, bydwragedd, a chynrychiolwyr undebau yn gadarnhaol iawn am y broses ddiwygiedig erbyn hyn, o ran adroddiadau prydlon a manteision y ffaith bod goruchwylwyr allanol yn gallu cyflawni'r broses ymchwilio erbyn hyn.

Cynhaliodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yr ymweliad sicrhau ansawdd tair blynedd ym mis Rhagfyr 2014, gan adrodd fod y model newydd o oruchwyliaeth statudol yn arloesol ac effeithiol. Disgrifiodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<sup>21</sup> y model fel enghraifft o reoli newid rhagorol. Dywedasant fod y ffordd effeithiol y mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a defnyddwyr gwasanaeth wedi gwneud cryn argraff ar gyfarwyddwyr nyrsio a phenaethiaid bydweigiaeth. Dywedodd cyfarwyddwyr nyrsio a phenaethiaid bydweigiaeth eu bod yn fodlon erbyn hyn bod y risgiau a oedd yn bodoli gynt gyda'r agwedd flaenorol at fydweigiaeth wedi cael eu datrys gyda'r model goruchwylio newydd.

Mae adolygwyr lleyg yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn allweddol i broses archwilio'r Awdurdod Goruchwylio Lleol gan eu bod yn gyfrifol am ganfod safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth ac asesu eu hymwybyddiaeth o oruchwyliaeth o safbwynt annibynnol. Mae cyfranogiad yr adolygwyr lleyg yn y gwaith o oruchwyllo bydwragedd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn helaeth trwy gadarnhau bod defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a ddarperir gan oruchwylwyr bydwragedd yn arbennig. Daeth yr adolygwyr lleyg i'r casgliad o'u proses archwilio bod goruchwyliaeth grŵp yn fecanwaith effeithiol i sicrhau bod arfer bydwragedd yn cael ei gadw dan adolygiad i wella diogelwch y cyhoedd, ac yn galluogi arfer gorau i gael ei rannu a dysgu ar y cyd.

Mae Adroddiad Kirkup (Mawrth 2015)<sup>22</sup> wedi cymeradwyo'r angen i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Adran Iechyd weithredu ar sail argymhellion Cronfa'r Brenin ar frys. Mae'r Awdurdod Goruchwylio yng Nghymru mewn sefyllfa gryfach o ganlyniad i chwilio am ffordd newydd a gwell o ddarparu goruchwyliaeth i fydwragedd. Mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol wedi herio'r status quo ac wedi mynd i'r afael â llawer o'r risgiau a nodwyd gan Kirkup ac adroddiad Ombwdsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd<sup>23</sup> ar gyfer Lloegr. Mae'r Prif Swyddog Nyrsio wrthi'n cysylltu â phrif swyddogion nyrsio o bob un o'r pedair gwlad i ddefnyddio'r gwerthusiad o'r model i ystyried yr elfennau goruchwylio mwyaf effeithiol, fel arweinyddiaeth ac adolygu/cymorth a chanllawiau gan gymheiriaid, a'u cynnwys yn y gofynion ail-ddilysu ar gyfer nyrsys a bydwragedd.



<sup>21</sup> [www.equalityhumanrights.com/cy/cyfraith-pholisi/ein-gwaith-cyfreithiol/ymchwiliadau-ffurfiol/atal-marwolaethau-wrth-gadw-oedolion-%C3%A2-chyflyrau-iechyd-meddwl](http://www.equalityhumanrights.com/cy/cyfraith-pholisi/ein-gwaith-cyfreithiol/ymchwiliadau-ffurfiol/atal-marwolaethau-wrth-gadw-oedolion-%C3%A2-chyflyrau-iechyd-meddwl)

<sup>22</sup> Kirkup (2015), 'The Report of the Morecambe Bay Investigation' [www.gov.uk/government/news/morecambe-bay-investigation-report-published](http://www.gov.uk/government/news/morecambe-bay-investigation-report-published)

<sup>23</sup> Ombwdsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd (2013): 'Midwifery supervision and regulation: recommendations for change'. Y Llyfrfa, Llundain, Lloegr.

# Gwelliant Sefydliadol

## Ymdrin â Phryderon

Rydym wedi gwella ac ehangu ein prosesau mewnol ar gyfer ymdrin â materion o bryder yn sylweddol. Yn benodol, rydym wedi *cyflwyno Pwyllgor Risg a Trosglwyddo i Lefel Uwch*<sup>24</sup>, sy'n cyfarfod bob mis i:

- Ystyried y wybodaeth sydd gennym am wasanaethau iechyd a pha un a yw hon yn awgrymu bod perygl na fydd safonau ansawdd a diogelwch yn cael eu bodloni
- Dod i gasgliad pa un a oes angen i AGIC gymryd camau o ganlyniad i asesiad o risg.

Mae'r fforwm yn ystyried materion sy'n deillio o bryderon neu ymholiadau a wneir i AGIC ac yn penderfynu, yn ddibynnol ar lefel y risg, beth allai'r camau priodol fod.

Rydym hefyd yn aelod o drefniadau *Trosglwyddo i Lefel Uwch ac Ymyrryd yn y GIG*<sup>25</sup>. Mae'r trefniadau hyn yn amlinellu sut y gallai Llywodraeth Cymru a chyrrff adolygu allanol geisio nodi ac ymateb i faterion difrifol sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau, ansawdd a diogelwch gofal, ac effeithiolrwydd sefydliadol y GIG.

## Gweithio gyda phartneriaid

Diwygiodd AGIC fformat yr Uwchgynadleddau Gofal Iechyd yn ystod 2014/15. Trafodwyd newidiadau yn cynnwys lleihau fformat yr uwchgynhadledd o ddeg cyfarfod unigol, â phob un yn para hanner diwrnod, i un cyfarfod drwy'r dydd lle caiff bob un o'r deg bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG eu trafod. Sicrhodd y fformat diwygiedig bod y wybodaeth a rannwyd ar y dydd yn canolbwyntio mwy ar bryderon a blaenoriaethau lefel uchel pob sefydliad. Cynigiodd y cyfle i dynnu sylw at bryderon cenedlaethol strategol.

Hefyd, cyflwynodd AGIC ail ddiwrnod Uwchgynhadledd Gofal Iechyd, fel bod y wybodaeth a rannwyd yn fwy prydlon a pherthnasol. Mae'r fformat diwygiedig hwn wedi sicrhau bod cyfraniad AGIC yn y cyfarfodydd Trosglwyddo i Lefel Uwch ac Ymyrryd tri pharti yn cael ei hysbysu gan wybodaeth a ddelir gan rwydwaith ehangach o gyrff partner.

Ehangwyd aelodaeth y Concordat yn ystod 2014/15, i gynnwys yr holl gyrff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn y DU. O ganlyniad, rydym yn gallu rhannu gwybodaeth berthnasol mwy fel mater o drefn gydag amrywiaeth gynyddol o sefydliadau partner i gynorthwyo ein rhaglenni gwaith ni a hwythau. Cyflawnwyd hyn trwy ddiwygio ac adnewyddu 11 *Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth*<sup>26</sup> cyfredol gyda sefydliadau partner a nodi a sefydlu cytundebau newydd gydag awdurdodau safonau proffesiynol ychwanegol.

Mae AGIC wedi mynychu a chyflwyno yng Nghymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru trwy gydol 2014/15. Roedd y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin 2015 yn sesiwn rhannu gwybodaeth bwysig, lle cymerodd aelodau

<sup>24</sup> [www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/HIW\\_Statement\\_of\\_Risk.pdf](http://www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/HIW_Statement_of_Risk.pdf)

<sup>25</sup> [gov.wales/docs/dhss/publications/140320escalationnhsen.pdf](http://gov.wales/docs/dhss/publications/140320escalationnhsen.pdf)

<sup>26</sup> [www.hiw.org.uk/gweithio-gyda-phartneriaid](http://www.hiw.org.uk/gweithio-gyda-phartneriaid)

AGIC a'r gymdeithas ran mewn trafodaethau ar ddull AGIC o gynnal arolygiadau o ofal iechyd annibynnol. Mae AGIC wedi nodi'r adborth gan Gymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru am fwy o gysondeb o ran y fformat adrodd ac arolygu, ond hefyd ei bod yn gadarnhaol bod AGIC wedi symud oddi wrth fformatau adroddiadau blaenorol. Roedd adborth cadarnhaol gan Gymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru hefyd yn cynnwys y canlynol:

'Bu gwelliannau i ryngweithio AGIC gydag ysbytai yn 2015.'

Cydweithredwyd â'r Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol yn ystod y flwyddyn hefyd, i gyflawni prosiect adolygu gan gymheiriaid diwedd oes. Nod yr adolygiad oedd datblygu a gweithredu model adolygu gan gymheiriaid a oedd yn defnyddio'r arbenigedd clinigol eang sydd gennym ledled Cymru. Cynhaliwyd adolygiadau gan gymheiriaid mewn dwy hosbis yn ystod 2014. Roedd hyn yn bwysig o ran helpu i nodi'r ffyrdd gorau o gefnogi cleifion, teuluoedd a gofalwyr gydag anghenion gofal diwedd oes.

## **Adolygwyr Cymheiriaid a Lleyg**

Parhaodd AGIC i weithio'n agos gydag adolygwyr lleyg ac adolygwyr cymheiriaid clinigol ar draws rhaglen waith AGIC yn ystod 2014/15.

Gwrandawodd adolygwyr lleyg ar lais y claf er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn cael ei adlewyrchu yn ein gwaith. Darparodd aelodau Cyngorau Iechyd Cymuned y safbwynt lleyg yn ystod y peilot o arolygiadau o feddygfeydd teulu.

Recriwtiodd AGIC nifer fawr o weithwyr iechyd proffesiynol â chofrestrriad gofal iechyd cyfredol i weithio gyda ni fel adolygwyr lleyg mewn timau arolygu. Mae ein panel wedi cynyddu o 33 i 202 ac yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o arbenigeddau gan gynnwys nyrsys, meddygon, deintyddion a fferyllwyr. Mae adolygwyr lleyg yn dod â gwybodaeth a chynngor clinigol perthnasol a chyfredol i arolygiadau ac adolygiadau AGIC.

Cynorthwyodd AGIC 'Haparchwiliadau Gweinidogol Ymddiried mewn Gofal' trwy drefnu i adolygwyr cymheiriaid gymryd rhan yn yr arolygiadau hyn.

Mewn arolwg cryno, gofynnodd AGIC i adolygwyr lleyg sut y gallai eu profiad o weithio gyda ni fod wedi dylanwadu ar newidiadau yn eu sefydliadau i wella profiad y claf neu arfer clinigol. Dyma'r hyn a ddywedasant:

**Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol**

*'Roedd un practis i mi ymweld ag ef yn rhagorol o'r safbwynt bod ganddyn nhw hysbysfwrdd yn yr ystafell yn nodi gwahanol themâu fel: dadheintio, cwynion, hyfforddi staff ac ati, ac roedd ganddynt luniau o sut yr oedd yn cael ei wneud yn y practis hwnnw, gyda'r rhain wedi'u harddangos yn yr ystafell aros ynghyd â phosteri wedi'u lamineiddio i gleifion edrych arnynt a bod yn siŵr eu bod yn dilyn safonau da ym mhob thema. O siarad â chleifion, roeddent yn gwerthfawrogi'r tryloywder hwn ac rwyf wedi rhoi ystyriaeth i hyn yn fy mhreactis fy hun.'*

**Adolygydd Cymheiriaid Fferyllol**

*'Fe wnes i ymddeol o waith llawn amser ym mis Awst 2014 a dechrau gweithio fel adolygydd fferyllol allanol i AGIC a'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr. Rwy'n parhau i weithio diwrnodau locwm achlysurol mewn fferyllfa ysbyty i gynnal fy arbenigedd clinigol, ac rwyf wedi canfod bod sefydliadau'n awyddus iawn i ofyn am fy nghyngor o ran a yw eu harferion cyfredol yn cyd-fynd â'r hyn y byddai AGIC yn disgwyl ei weld. Rwyf wedi gallu rhoi mewnbwn i'r sefydliadau hyn i wella arfer o ran rheoli meddyginiaethau ac amledd a chwmpas archwiliadau mewnol.'*

**Adolygydd Cymheiriaid Nyrsio**

*'Ar ôl ymddeol o'r GIG yn ddiweddar, lle'r oeddwn yn gweithio fel rheolwr y Ddeddf Lechyd Meddwl, nid wyf yn gallu dylanwadu ar newid fel y cyfryw. Fodd bynnag, rwy'n darparu hyfforddiant Gweithwyr Lechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy mewn prifysgol ar ffurflenni Deddf Lechyd Meddwl rhagnodedig a dogfennau cysylltiedig. Trwy wneud hynny, mae'n bwysig cyfeirio'n benodol at effaith bosibl y Ddeddf Lechyd Meddwl ar y rhai sy'n cael eu heffeithio ganddi yn ogystal â'r angen i gwblhau dogfennau a chofnodion yn gyfreithlon ac i safon dda. Mae gweithio fel adolygydd cymheiriaid wedi rhoi cyfle i mi asesu dogfennau a chofnodion Deddf Lechyd Meddwl mewn lleoliadau amrywiol i nodi safonau sy'n amrywio, gyda'r nod o wella hyfforddiant yn y dyfodol a gwella profiad y claf.'*

**Adolygydd Cymheiriaid Meddygon Teulu**

*'Rydym wedi ymchwilio i gwrs i'n uwch-nyrsys ar reoli mân-salwch, ac mae dwy o'n nyrsys yn cyflawni cyrsiau Presgripsiynu Annibynnol ar hyn o bryd. Cefais fy hysbysu am y ddau bosiblrwydd hyn yn ystod adolygiad arfer.'*

Gofynnwyd i adolygwyr llewg hefyd am eu profiad o weithio gyda ni. Dyma'r hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud:

**Adolygydd cymheiriaid deintyddol**

*'Profiad cadarnhaol iawn. Rwyf wedi mwynhau cyfarfod yr arolygwyr ac rwy'n teimlo bod yr arolygiadau'n helpu eraill i godi safonau a gwella gofal cleifion, wrth wella fy arfer ar yr un pryd. Roedd y cyfarfod gydag adolygwyr cyfredol eraill yn ddiddorol a chynhyrchiol iawn.'*

**Adolygydd cymheiriaid nyrsys**

*'Mae lefel y cyfathrebiad ac ymgysylltiad yr wyf wedi bod yn rhan ohoni hyd yma wedi gwneud cryn argraff arnaf i. Mae gen i gydweithwyr sy'n cymryd rhan ar lefel debyg gyda rheoleiddwyr eraill nad ydynt wedi cael profiad mor gadarnhaol ag yr ydwyf i. Rwy'n meddwl bod y diwrnod cynefino a'r paratoad yn hynod werthfawr, a gwnaed i mi deimlo fy mod i'n rhan o'r tîm ar unwaith. Roedd yn gyfle dysgu gwych a galluogodd i mi ddatblygu perthynas gydag AGIC hefyd.'*



Rydym wedi derbyn adborth gwerthfawr gan ein hadolygwyr hefyd ar sut y gallwn barhau i wella mewn meysydd fel eglurder amcanion ar ddechrau arolygiadau, sicrhau eu bod yn cael y newyddion diweddaraf am AGIC, a sicrhau eu bod yn derbyn adborth ar eu swyddogaethau yn dilyn gweithgarwch arolygu.

## Dysgu a Datblygu

Roedd dysgu a datblygu ar gyfer staff ac adolygwyr yn ganolbwynt pwysig i AGIC yn ystod 2014/15. Cyflwynwyd rhaglen gynefino ar gyfer staff a oedd yn cynnwys cynllun hyfforddiant cynhwysfawr, gan gynnwys canllawiau priodol gan y cyfarwyddwr clinigol. Galluogodd hyn i ni ddarparu hyfforddiant wedi'i deilwra i reolwyr arolygu, gan gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Dyma enghraifft o adborth a dderbyniwyd gan adolygydd cymheiriaid sy'n disgrifio'r gwelliant hwn:

'Mae'r rheolwr arolygu wedi bod yn gefnogol a gwybodus iawn ac wedi meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol gyda'r gallu i ddarparu pwyntiau cadarnhaol a negyddol arolygiadau mewn ffordd sy'n hybu gweithio integredig gyda'r rhai sy'n cael eu harolygu.'

Datblygwyd y cynllun dysgu a datblygu o ganlyniad o weithio'n agos gyda staff, yr oedd llawer ohonynt yn newydd i AGIC. Cynyddodd staff eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy gael mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd dysgu. Cyflwynwyd dull dysgu a datblygu cymysg gennym, a galluogodd staff i fynychu cynadleddau, diwrnodau hyfforddi, a sesiynau gwybodaeth, a chael mynediad at becynnau e-ddysgu.

Mynychodd adolygwyr cymheiriaid a llyyg ddiwrnodau cynefino a hyfforddiant a roddodd y sgiliau angenrheidiol iddynt gymryd rhan mewn arolygiadau. Cyflwynodd AGIC broses adborth gynhwysfawr a ddefnyddiwyd gan reolwyr arolygu i ddarparu adborth i adolygwyr ar ôl iddynt gymryd rhan mewn arolygiad. Rhoddodd y broses hon gyfle i adolygwyr gynnig adborth ar eu profiad o'r arolygiad. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i ddarparu cefnogaeth, i nodi gofynion hyfforddiant, ac i wneud newidiadau i ddulliau arolygu.

## Cyfathrebu

Lansiwyd gwefan newydd gennym ym mis Ebrill 2014 sy'n gwneud chwilio trwy ein llyfrgell o adroddiadau'n haws ac yn fwy cywir. Rydym yn cydnabod bod gwelliannau i'w gwneud o hyd a byddwn yn bwrw ymlaen â datblygiadau pellach yn ystod 2015/16.

Rydym wedi diweddarau ein *taflen gwybodaeth i'r cyhoedd*<sup>27</sup> a'n *dogfennau cwynion*,<sup>28</sup> gan sicrhau eu bod yn cynnig y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r cyhoedd.

Lansiwyd ein cyfrif Twitter (*@AGIC\_Cymru*<sup>29</sup>) ym mis Mawrth 2015, sy'n ein galluogi i gysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid trwy gyfryngau cymdeithasol, gan gynyddu ymwybyddiaeth ac amlygrwydd ein swyddogaeth a faint o bobl sy'n darllen ein hadroddiadau.

<sup>27</sup> [www.hiw.org.uk/agordogfen/267992](http://www.hiw.org.uk/agordogfen/267992)

<sup>28</sup> [www.hiw.org.uk/fynegi-pryder](http://www.hiw.org.uk/fynegi-pryder)

<sup>29</sup> [www.twitter.com/AGIC\\_Cymru](https://www.twitter.com/AGIC_Cymru) [www.twitter.com/hiw\\_wales](https://www.twitter.com/hiw_wales)

Un o'n prif dargedau cyfathrebu ar gyfer y flwyddyn oedd gwella prydlondeb adroddiadau, a gosodwyd rhai targedau caled iawn gennym i'n hunain, sef:

- Hysbysu am faterion o bryder uniongyrchol o fewn ddau ddiwrnod
- Darparu adroddiad drafft i'r lleoliad a arolygwyd o fewn tair wythnos
- Cyhoeddi'r adroddiad terfynol o fewn tri mis.

Ni chyrhaeddwyd bob un ohonynt, ond mae'r tabl canlynol yn dangos ein bod wedi cyhoeddi 67% o'n hadroddiadau o fewn tri mis o gynnal yr arolygiad.

Llythrau sicrwydd ar unwaith a gyflwynwyd o fewn ddau ddiwrnod	68%
Darparu adroddiad drafft i'r lleoliad a arolygwyd o fewn tair wythnos	61%
Cyhoeddi'r adroddiad terfynol o fewn tri mis	67%

Yn ogystal â'r dangosyddion perfformiad allweddol uchod, gwyddom fod 83% o'n hadroddiadau wedi cael eu cyhoeddi o fewn 100 diwrnod. Cyhoeddwyd pedwar adroddiad gennym fwy na 150 diwrnod ar ôl yr ymweliad arolygu, a 164 diwrnod yw ein hoediad hiraf cyn cyhoeddi. Rydym wedi cynnal ymchwiliad mewnol cryno i ddeall beth aeth o'i le yn yr achosion hyn ac wedi rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith.

## Cyllid

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut y gwnaethom ddefnyddio'r adnoddau ariannol a oedd ar gael i ni i ddarparu ein Cynllun Gweithredol 2014/15.

	£000oedd
<b>Cyfanswm Cyllideb AGIC</b>	<b>3.007</b>
<b>Gwariant:</b>	
Costau staff	2.462
Costau nad oeddent yn rhai staff	0.266
Costau adolygwyr	0.588
<b>Cyfanswm Gwariant:</b>	<b>3.316</b>
<b>Incwm:</b>	
Gofal iechyd annibynnol	0.261
Cofrestrfa ddeintyddol	0.090
<b>Cyfanswm incwm:</b>	<b>0.351</b>
<b>Cyfanswm Gwariant Net</b>	<b>2.965</b>



Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
<b>Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol:</b>	
Lleiafswm o 50 o wardiau neu leoliadau eraill gan gwmpasu'r holl fyrddau iechyd lleol yng Nghymru a chymysgedd o ysbytai cymunedol ac aciwt, a chynhyrchu crynodeb o ganfyddiadau ar ddiwedd pob grŵp.	52 o arolygiadau (gan gynnwys chwe ymweliad dilynol).  Cyhoeddwyd y rhain ar wefan AGIC.
Llunio crynodeb blynyddol o dueddiadau a themâu a nodwyd o ganlyniad.	Rydym wedi cynhyrchu crynodeb blynyddol, a chaiff ei gyhoeddi yn ystod haf 2015.
Datblygu'r modd rydym yn cynnal y trefniadau rheoli ar gyfer atal heintiau, ac ymgymryd ag amryw o arolygiadau peilot.	O ganlyniad i waith sy'n mynd rhagddo gyda rhanddeiliaid gogyfer cyflwyno'r trefniadau newydd, rydym wedi cytuno ar raglen tair blynedd i asesu trefniadau atal heintiau. Caiff y rhain eu hamlinellu yn ein <i>Cynllun Gweithredol 2015/16</i> . <sup>30</sup>
<b>Adolygiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl:</b>	
Cynnal o leiaf 60 adolygiad mewn lleoliadau lle mae unigolion yn debygol o gael eu cadw dan y Ddeddf, a rhoi adborth ar lafar ac yna llythyrau i reolwyr pob lleoliad.	Gwnaed 77 o adolygiadau.
Cyhoeddi ein canfyddiadau yn Adroddiad Blynyddol y Ddeddf Iechyd Meddwl 2013/14.	Cyhoeddwyd yr adroddiad: <i>Adroddiad y Ddeddf Iechyd Meddwl 2013/14</i> . <sup>31</sup>
<b>Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn:</b>	
Byddwn yn ymateb i oddeutu 750 o geisiadau. Caiff nifer yr ymweliadau ei bennu gan faint o geisiadau a geir gan y gwasanaeth.	Cwblhawyd dros 800 o geisiadau.

<sup>30</sup> [www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru - Cynllun Gweithredol 2015 - 2016.pdf](http://www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Arolygiaeth%20Gofal%20Iechyd%20Cymru%20-%20Cynllun%20Gweithredol%202015%20-%202016.pdf)

<sup>31</sup> [www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Monitro defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn 2013-2014.pdf](http://www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Monitro%20defnydd%20o%27r%20Ddeddf%20Iechyd%20Meddwl%20yn%202013-2014.pdf)

Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
<b>Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid:</b>	
<p>Monitro'r dull o weithredu mesurau diogelu gan ysbytai'r GIG ac ysbytai annibynnol cofrestredig wrth ofalu am gleifion nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau am eu gofal.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar y cyd ag AGGCC yn ystod chwarter cyntaf 2015, gan gyfeirio at ganfyddiadau sy'n deillio o'n gwaith casglu data rheolaidd ynghylch y defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru.</p> <p>Cynnal adolygiad cenedlaethol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a chyhoeddi adroddiad o'r canfyddiadau ar y cyd. Byddwn yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol Iechyd Meddwl cyn gynted â phosibl ar ôl y flwyddyn ariannol yr ydym yn adrodd arni.</p>	<p>Cyhoeddwyd yr adroddiad: Trefniadau <i>Diogelu Rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2013/14.</i><sup>32</sup></p> <p>Cyhoeddwyd yr adroddiad: <i>Adolygiad Cenedlaethol o ddefnydd Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru.</i><sup>33</sup></p> <p>Gwnaethom hefyd gyd-gynnal cynhadledd ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ym mis Tachwedd 2015. Rhoddodd y gynhadledd ddiweddariad ar y safbwynt cyfreithiol a chanfyddiadau a ddeilliodd o'r cyd-adolygiad ynghyd â golwg ymlaen at gynlluniau a bwriadau yn y dyfodol.</p>
<b>Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol:</b>	
<p>Parhau i fynychu cyfarfodydd busnes chwarterol, gan gyfrannu at Adroddiad Cenedlaethol y DU fel sy'n briodol.</p>	<p>Gwnaethom barhau i fynychu'r cyfarfodydd hyn, ac roeddem yn aelod gweithgar o'r Grŵp Llywio yn ystod 2014/15.</p>
<b>Ymchwiliadau i ddynladdiad:</b>	
<p>Rydym yn disgwyl cynnal pedwar ymchwiliad i amgylchiadau lle bydd defnyddiwr gwasanaeth sy'n wybyddus i'r gwasanaethau iechyd meddwl ynghlwm â dynladdiad. Caiff y nifer a gynhelir ei phenderfynu gan nifer yr ymchwiliadau a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Gwnaed dau ymchwiliad.</p> <p>Adroddiadau a gyhoeddwyd:</p> <p><i>Adroddiad o adolygiad o'r ddarpariaeth gofal iechyd meddwl a'r driniaeth a ddarparwyd i Mr M gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, cyn iddo gyflawni dynladdiad ym mis Mai 2011.</i><sup>34</sup></p> <p><i>Adroddiad o adolygiad ynghylch Mr L a'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl, yn dilyn dynladdiad a gyflawnwyd ym mis Hydref 2012.</i><sup>35</sup></p>

<sup>32</sup> [www.hiw.org.uk/opendoc/259900](http://www.hiw.org.uk/opendoc/259900)

<sup>33</sup> [www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Archwiliad Cenedlaethol o ddefnydd Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru.pdf](http://www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Archwiliad+Cenedlaethol+o+ddefnydd+Trefniadau+Diogelu+rhad+Colli+Rhyddid+yng+Nghymru.pdf)

<sup>34</sup> [www.hiw.org.uk/opendoc/251969](http://www.hiw.org.uk/opendoc/251969)

<sup>35</sup> [www.hiw.org.uk/opendoc/248571](http://www.hiw.org.uk/opendoc/248571)

Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
<b>Y Mesur Iechyd Meddwl:</b>	
<p>Byddwn yn ymgorffori adolygiadau gofal a thriniaeth fel rhan o'n hadolygiadau o'r Ddeddf Iechyd Meddwl mewn lleoliadau ar gyfer cleifion mewnol, lle'n briodol.</p> <p>Byddwn hefyd yn datblygu ac yn cytuno ar ddull o gynnal asesiadau tebyg mewn lleoliadau cymunedol, gyda Llywodraeth Cymru, yn nechrau 2014/15.</p>	<p>Gwnaethom barhau i fonitro cydymffurfiad â'r Mesur Iechyd Meddwl (rhan 2 a 4) fel rhan o'n harolygiadau iechyd meddwl ar gyfer y GIG a'r sector annibynnol.</p>
<b>Gorchmynion triniaeth gymunedol:</b>	
<p>Byddwn yn ystyried cynnal adolygiad o'r defnydd o Orchmynion Triniaeth Cymunedol tuag at ddiwedd 2014/15.</p>	<p>Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal bellach yn 2015/16.</p>
<b>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol):</b>	
<p>Rhoi hyfforddiant i'n staff i arwain a chefnogi'r rhaglen hon o waith.</p> <p>Sicrhau'r adolygwyr arbenigol sydd eu hangen i gyflenwi ein harolygiadau.</p> <p>Parhau i weithredu'n effeithiol yr adolygiad panel o ddigwyddiadau a hysbyswyd.</p> <p>Cynnal o leiaf pedwar arolygiad o adrannau clinigol.</p>	<p>Gwnaethom gynnal pedwar arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), ac rydym wedi datblygu ffordd fwy cynaliadwy o ddefnyddio adnoddau a phartneriaid allanol wrth fynd ymlaen.</p> <p>Daethom o hyd i adolygwyr arbenigol a chynnal panel i brosesu'r hysbysiadau o ddigwyddiadau newydd.</p>
<b>Adolygiadau o farwolaethau yn y ddalffa:</b>	
<p>Rydym yn disgwyl cynnal hyd at ddeg adolygiad o farwolaethau yn y ddalffa. Caiff y nifer a gynhelir ei bennu gan nifer yr achosion a gyfeirir atom gan Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf.</p>	<p>Gwnaed deg ymchwiliad.</p>
<p>Byddwn yn gwella'r ffordd mae'r canfyddiadau o'n hadolygiadau o farwolaethau yn y ddalffa'n cael eu rhannu gyda sefydliadau GIG Cymru perthnasol, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r materion rydym yn eu canfod yn ystod yr adolygiadau hyn sy'n ymwneud â gofal y GIG.</p>	<p>Rydym yn parhau i rannu ein gwersi gyda grwpiau cenedlaethol ac wedi drafftio adroddiad sy'n crynhoi'r canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiadau a wnaethom. Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn haf 2015.</p>
<p>Byddwn yn cymryd rhan mewn cyd-arolygiad o un tîm troseddwy'r ifanc yng Nghymru, fel arolygiaeth iechyd ar gyfer y sefydliad partner.</p>	<p>Cyhoeddwyd yr adroddiad: <i>Cyd-arolygiad llawn o waith troseddwy'r ifanc yng Nghasnewydd.</i><sup>36</sup></p>

Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
<b>Meddygon Teulu:</b>	
Cynnal a gwerthuso o leiaf 34 o arolygiadau o bractisau meddygon teulu (deg rhwng Ebrill ac Awst 2014 ledled yr holl fyrddau iechyd lleol yng Nghymru).	Cynhaliwyd 34 o arolygiadau (11 ohonynt rhwng Ebrill ac Awst 2014). Am mai peilot oedd hwn, ni chafodd yr adroddiadau unigol eu cyhoeddi.
Cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi canfyddiadau'r rhaglen arolygu.	Cyhoeddwyd yr adroddiad: <i>Arolygiadau o Bractisau Meddygon Teulu: Cynllun Peilot 2014/15: Dadansoddiad Thematig.</i> <sup>37</sup>
<b>Deintyddiaeth:</b>	
Cyhoeddi adroddiad ar ganlyniadau cynllun sicrhau ansawdd 2014/15 ar gyfer ymarferwyr yng Nghymru sy'n darparu deintyddiaeth breifat yn unig.	Cyhoeddwyd yr adroddiad: <i>Canlyniadau'r cynllun sicrhau ansawdd ar gyfer ymarferwyr.</i> <sup>38</sup>
Cyfrannu at lunio rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol effeithiol ar gyfer deintyddiaeth breifat yng Nghymru.	<p>Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein barn arbenigol yn cael ei hystyried wrth greu'r rheoliadau a'r safonau newydd.</p> <p>Rydym yn darparu cyngor a chyfarwyddyd ar sut y gall deintyddiaeth breifat fodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal iechyd annibynnol er mwyn i safonau deintyddiaeth breifat fod yn gyson â gwasanaethau'r GIG.</p>
Arolygu tua 70 o bractisau deintyddol y GIG yng Nghymru yn 2014/15, a bydd traean ohonynt yn ddeintyddion preifat.	Cynhaliwyd 77 o arolygiadau deintyddol.
<b>Gofal Integredig:</b>	
Cynnal ymarfer peilot i sefydlu fframwaith ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal integredig mewn modd cydgysylltiedig.	Gynhaliwyd ymweliad ymgymerydd cyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys. Mae'r dysgu o hyn wedi cael ei ddal a bydd yn cael ei defnyddio fel sail i diweddarau arolygiadau o gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y dyfodol.

<sup>37</sup> [www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Arolygiadau Meddygon Teulu - Peilot 2014-15 - Dadansoddiad Thematig.pdf](http://www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/Arolygiadau_Meddygon_Teulu_-_Peilot_2014-15_-_Dadansoddiad_Thematig.pdf)

<sup>38</sup> [www.hiw.org.uk/opendoc/258308](http://www.hiw.org.uk/opendoc/258308)

Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
Defnyddio'r profiad o'r gwaith hwn i lunio rhaglen waith at y dyfodol sy'n canolbwyntio ar fodolau o ofal integredig sy'n esblygu.	Gynhaliwyd ymweliad ymgwymerwyd cyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys. Mae'r dysgu o hyn wedi cael ei ddal a bydd yn cael ei defnyddio fel sail i diweddarau arolygiadau o gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y dyfodol.
<b>Gofal Iechyd Annibynnol:</b>	
Parhau i brosesu ceisiadau'n brydlon i gofrestru fel lleoliad gofal iechyd annibynnol, neu i newid y gwasanaeth maent wedi'i gofrestru ar ei gyfer, gan gynnwys deintyddion preifat unigol Sicrhau bod ymgeiswyr yn dangos, neu'n parhau i ddangos, eu bod yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau gofynnol perthnasol.	Gwnaethom brosesu 170 o geisiadau yn ystod 2014/15 a oedd yn cynnwys: 24 – Gofal iechyd annibynnol 12 – Rheolwr newydd 7 – Newidiadau sylweddol i leoliadau presennol 127 – Deintyddion newydd
Cynnal o leiaf 16 o ymweliadau â darparwyr cofrestredig laser neu olau pwls dwys dosbarth 3B neu 4 na ddefnyddir at ddibenion llawdriniaeth, a pharhau â'n rhaglen o ymweliadau â darparwyr y tybir nad ydynt wedi'u cofrestru.	Gwnaed 36 o ymweliadau, gan gynnwys deg darparwr y tybir nad ydynt wedi'u cofrestru.
Cynnal arolygiadau dirybudd ym mhob un o'r 21 ysbyty iechyd meddwl ac anabledd dysgu annibynnol.	Cynhaliwyd 23 o arolygiadau. Cynhaliwyd chwech arolygiad yn y GIG hefyd.
Cynnal o leiaf 30 o ymweliadau arolygu â sefydliadau cofrestredig eraill, ac anfon llythyr rheoli yn crynhoi'r ymweliad at y darparwyr cofrestredig o fewn pedair wythnos. (Bydd hyn yn cynnwys ysbytai aciwt a rhai nad ydynt yn aciwt, hosbisau ar gyfer plant ac oedolion, clinigau annibynnol, clinigau/ canolfannau ffrwythloni in vitro, laser dosbarth 3B neu 4 neu laser golau pwls dwys nad yw at ddiben llawdriniaethol, er enghraifft.)	Dadansoddiad bras o'r arolygiadau a gynhaliwyd: Hosbis plant: 1 Hosbis oedolion: 8 Clinig annibynnol: 4 Laser dosbarth 3B neu 4: 36 Clinig colli pwysau: 3

Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
<b>Awdurdod Goruchwyllo Lleol</b>	
<p>Sicrhau bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at lefelau priodol o oruchwyliaeth, a'u bod yn derbyn yr oruchwyliaeth honno yn unol â safonau a chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.</p>	<p>Ar 31 Mawrth 2015, roedd 16 o oruchwylwyr bydwragedd yn cael eu cyflogi, ac roedd 1,786 o fydwragedd wedi hysbysu'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol am eu bwriad i ymarfer bydwreigiaeth yng Nghymru yn ystod 2014/15. Yn ystod y flwyddyn, mae cymhareb a gyfrifwyd – wedi'i chymhwyso – yn dangos bod un fydwraig i bob 11 goruchwyllydd bydwragedd yng Nghymru ar gyfartaledd, sydd o fewn y gymhareb sy'n ofynnol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sef 1:15.</p>
<p>Parhau i weithio gyda'r holl rhanddeiliaid perthnasol i weithredu'r model goruchwyllo at y dyfodol yng Nghymru.</p>	<p>Mae'r cyfarwyddwyr nyrsio, penaethiaid bydwreigiaeth, y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi parhau i weithio gyda'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol wrth weithredu, monitro a gwerthuso'r model goruchwyllo newydd.</p> <p>Mae'r rhanddeiliaid perthnasol i gyd wedi bod yn rhan o'r grŵp monitro a gwerthuso sydd wedi bod yn cwrdd bob yn ail fis yn ystod 2013/14. Diweddarwyd y cyfarwyddwyr nyrsio gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru, a hynny mewn papur briffio ar gyfer cyfarfod cyfarwyddwyr nyrsio Cymru gyfan yn Chwefror 2015.</p> <p>Roedd adolygiad sicrwydd ansawdd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a wnaed yn Rhagfyr 2014, wedi adrodd bod y model newydd yn arloesol ac effeithiol, a chydabu fod gweithredu'r model yn arfer nodedig. Roedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi adrodd bod y model yn enghraifft o reoli newid ar ei orau, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid perthnasol mewn gwasanaethau mamolaeth, AGIC, a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth. Cadarnhaodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fod safonau proffesiynol o ran goruchwyliaeth statudol yn cael eu bodloni yng Nghymru.</p>

Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
Cyhoeddi adroddiad blynyddol i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed mewn goruchwyliaeth yn ystod 2013/14, yn unol â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.	Cyhoeddwyd yr adroddiad: <i>Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol 2013/14</i> . <sup>39</sup>
Ystyried arfarniad o ddewisiadau ar gyfer y sefydliad mwyaf priodol i gynnal swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol.	Ar hyn o bryd, mae'r prosiect hwn yn segur ac yn disgwyl am ganlyniad adolygiad y Kings Fund o reoleiddio bydwreigiaeth, a ddynododd y dylid cael gwared ar oruchwyllo statudol dros y flwyddyn i 18 mis nesaf.
Cyfrannu at adolygiad o drefniadau llywodraethu sy'n ategu'r rhaglen o adolygiadau gan gymheiriaid.	Mae gan yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol drefniadaeth llywodraethu cadarn gyda'r rhaglen o adolygiadau gan gymheiriaid ac o fewn y cynllun gwaith blynyddol. Mae hyn wedi cynnwys archwiliadau penodol ar safbwynt y defnyddwyr o'r model newydd a barn menywod ynghylch cysylltu â goruchwyllydd bydwreigedd.
Ystyried ein rôl barhaus, mewn perthynas â chefnogi adolygiadau gan gymheiriaid, gyda'r asiantaethau partner ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid a chyda rhanddeiliaid eraill.	Mae'r adolygydd llewg yn eistedd ar grŵp monitro a gwerthuso Cymru gyfan, a gytunodd i ymestyn gwerthusiad y model i gynnwys profiadau'r defnyddwyr gwasanaeth.
Cyhoeddi ar ein gwefan fersiwn gyhoeddus o'r adroddiadau a'r cynlluniau gweithredu a gynhyrchwyd yn dilyn pob adolygiad gan gymheiriaid.	Cyhoeddwyd <i>Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol 2013/14</i> <sup>40</sup> ac adroddiadau archwilio ar ein gwefan.  Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol ac Archwilio'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol 2014/15 yn Awst 2015.  Mae ein gwefan yn cynnwys adran i esbonio'r newidiadau wrth weithredu'r <i>model goruchwyllo newydd at y dyfodol</i> <sup>41</sup> ac yn cyhoeddi dogfennau perthnasol i gyd-fynd â'r newidiadau.
<b>Llywodraethu a Sicrwydd Gweithredol:</b>	
Rhoi cymorth gweithredol i adolygu safonau gofal iechyd dan arweiniad Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, y disgwylir i'r byrddau iechyd lleol asesu eu hunain mewn perthynas â nhw.	Cafodd AGIC ei gynrychioli ar y bwrdd prosiect a'r bwrdd prosiect ar gyfer yr adolygiad o safonau gofal iechyd.

<sup>39</sup> [www.hiw.org.uk/opendoc/251348](http://www.hiw.org.uk/opendoc/251348)

<sup>40</sup> [www.hiw.org.uk/lisa-adroddiadau-diweddaraf](http://www.hiw.org.uk/lisa-adroddiadau-diweddaraf)

<sup>41</sup> [www.hiw.org.uk/future-proofing-model-of-supervision](http://www.hiw.org.uk/future-proofing-model-of-supervision)



Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
Dilysu'r hunanasesu mewn perthynas â'n gwybodaeth ehangach a rhoi adborth i bob sefydliad y GIG.	Cafodd hunanasesiadau eu dilysu mewn perthynas â'r wybodaeth yn yr uwchgynhadledd, asesiad strwythuredig Swyddfa Archwilio Cymru, a'r dystiolaeth a ganfuwyd yng ngweithgarwch arolygu AGIC. Bydd y rhain yn cael eu cyflenwi i fyrddau iechyd trwy gael eu cynnwys yn yr adroddiadau blynyddol sydd i fod i gael eu cyhoeddi yn ystod haf 2015.
Cyflwyno proses o adrodd yn flynyddol i aelodau bwrdd y GIG i amlygu'r themâu a phroblemau sy'n codi o'n gwaith.	Mae rheolwyr perthynas yn cyflwyno canfyddiadau i fyrddau iechyd yn ystod haf 2015 ac yna bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Awst 2015.
<b>Gwneud gwahaniaeth:</b>	
Parhau i gymryd rhan mewn grwpiau cyswllt ledled Ewrop, y DU a Chymru i sicrhau ein bod yn rhannu gyda'n cydweithwyr sy'n arolygu, archwilio a rheoleiddio, ac yn dysgu ganddynt.	Cymryd rhan yn y Bartneriaeth Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwylio a Phenaethiaid Arolygu'r Pum Gwlad.  Yng Nghymru rydym wedi chwarae rhan weithgar yn cadeirio uwchgynadledau gofal iechyd a Choncordat Cymru, a thrwy gynnal y rheolwr rhaglen ar gyfer Arolygiaeth Cymru.
Defnyddio uwchgynadledau gofal iechyd i rannu a rhoi prawf ar wybodaeth am sefydliadau'r GIG yng Nghymru er mwyn sefydlu asesiad trosfwaol, cydlynol sy'n gyrru cynlluniau pob un ohonom.	Gwella strwythur yr uwchgynhadledd er mwyn rhannu gwybodaeth a thystiolaeth mewn ffordd fwy effeithiol.
Rhoi ein protocol gweithredu ar waith gyda Chynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru i rannu tystiolaeth yn well er mwyn canfod meysydd sy'n peri problem yn gynharach, gan sicrhau bod profiadau a barn cleifion yn ein helpu i lywio'r broses asesu risg.	Cyhoeddwyd protocol y Cynghorau Iechyd Cymuned: <i>Protocol Gweithredol y Cynghorau Iechyd Cymuned ac AGIC.</i> <sup>42</sup>
Adolygu ein memoranda cyd-ddealltwriaeth, protocolau gweithredu a phrotocolau rhannu gwybodaeth i sicrhau eu bod yn gyflawn, yn briodol, ac yn gyson.	Mae ein memoranda cyd-ddealltwriaeth wedi cael eu hadolygu yn ystod 2014/15 ac mae nifer ohonynt wedi cael eu hail ddractio a'u hail gyhoeddi.

Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
Sicrhau bod pob memorandwm cyd-ddealltwriaeth a phrotocol cysylltiedig yn gyfredol ac wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.	Cyhoeddwyd adolygiad o'r memoranda cyd-ddealltwriaeth: <i>Gweithio gyda Phartneriaid</i> . <sup>43</sup>
Cyfrannu at weithrediad effeithiol Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.	Cafodd Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru eu rhoi ar waith gyda chymorth AGIC yn ystod mis Ebrill 2014. Bydd AGIC yn parhau i gyfrannu at y trefniadau hyn trwy'r Pwyllgor Risg ac Uwchgyfeirio.
Diweddarau a gweithredu ein polisi a chanllawiau gorfodi.	Mae'r polisi gorfodi wedi cael ei ddiweddarau a bydd yn cael ei roi ar waith a'i gyhoeddi yn ystod haf 2015.
<b>Cryfhau Cyfathrebu:</b>	
Lansio gwefan newydd sy'n llawer haws i'w llywio ac a fydd yn ei gwneud yn haws canfod mwy o wybodaeth am leoliadau gofal iechyd unigol.	Lansiwyd gwefan newydd yn ystod mis Ebrill 2014.
Datblygu ymgyrch daflenni a fydd yn golygu bod copi caled o wybodaeth am AGIC ar gael mewn gwahanol leoliadau gofal iechyd, ac ystyried sut gallwn weithio mewn modd mwy effeithiol gyda chynghorau iechyd cymuned i godi ymwybyddiaeth o'n swyddogaethau ni a nhw.	<i>Taflen wybodaeth</i> <sup>44</sup> AGIC wedi ei chynhyrchu.
Cyhoeddi cylchlythyrau bob chwarter.	Cafodd hyn ei adolygu ac mae cylchlythyrau yn awr yn cael eu hanfon at randdeiliaid allanol ddwywaith y flwyddyn, ond mae'r holl adroddiadau'n cael eu dosbarthu wrth iddynt gael eu cyhoeddi.
Adolygu fformat ein hadroddiadau arolygu a sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi'n brydlon yn dilyn yr ymweliad arolygu.	Mae ein hadroddiadau arolygu wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn iddynt adlewyrchu'n well y themâu rydym yn eu profi yn ystod ein hymweliadau. Rydym hefyd wedi symud at gyhoeddi adroddiadau llawn ar gyfer arolygiadau iechyd meddwl yn hytrach na chyhoeddi llythyrau rheoli. Yn ogystal, rydym bellach yn cyflwyno llythyrau sicrhau ar unwaith ar gyfer y pryderon mwyaf difrifol yn union ar ôl ymweliad.

Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
<p>Ymgymryd ag ymarfer i geisio barn rhanddeiliaid am ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod 2015–18.</p>	<p>Mae <i>Cynllun Strategol AGIC 2015–18</i><sup>45</sup> yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ar hyn o bryd, a disgwylir i ymatebion gael eu derbyn erbyn 31 Gorffennaf 2015.</p> <p>Pan fydd yr holl gyfraniadau wedi cael eu derbyn a'u hystyried, anelir at derfynu'r adroddiad yn ystod mis Awst 2015, ond bwriedir y bydd y cynllun yn dal i fod yn ddogfen fyw ac yn cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen.</p>
<b>Adolygwyr Cymheiriaid a Lleyg:</b>	
<p>Parhau ein gweithgarwch recriwtio i sicrhau digon o adolygwyr i gynnal ein rhaglenni arolygu ac ymchwilio.</p>	<p>Gwnaeth AGIC recriwtio dros 150 o adolygwyr ychwanegol yn ystod 2014/15.</p>
<b>Ein Staff:</b>	
<p>Gweithredu'n llawn ein dull strategol o weithio tuag at ddysgu a datblygu Bydd hyn yn sicrhau gwelliant parhaus yn ein hagwedd at sefydlu, datblygu rheolwyr, datblygu sgiliau proffesiynol, a chefnogi staff i fynd at y dysgu a'r datblygu sydd eu hangen arnynt i berfformio a datblygu.</p>	<p>Cynhyrchwyd strategaeth dysgu a datblygu, a chafodd ei rhoi ar waith.</p>
<b>Cyngor a Her:</b>	
<p>Gwella cylch gorchwyl y Bwrdd Cyngori a sicrhau ei fod yn weithredol cyn diwedd mis Mawrth 2015.</p>	<p>Mae ein <i>Bwrdd Cyngori</i><sup>46</sup> wedi cael ei greu ac fe gyfarfu ddwywaith yn ystod 2014/15.</p>
<b>Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth:</b>	
<p>Adolygu strwythur ein system rheoli cofnodion er mwyn ei wneud yn haws i'w ddefnyddio.</p>	<p>Mae'r cam hwn yn barhaus wrth i ni barhau i esblygu.</p>
<p>Adolygu'r defnydd o'r holl gronfeydd data sy'n dal gwybodaeth bersonol neu sensitif i sicrhau cywirdeb a bod systemau bwydo data yn cael eu symleiddio ac yn gadarn.</p>	<p>Fel rhan o'r amcan hwn, gwnaethom ddatblygu systemau newydd sy'n fwy cadarn ac sy'n darparu gwybodaeth reoli fwy effeithiol.</p>

<sup>45</sup> [www.hiw.org.uk/strategic-plan](http://www.hiw.org.uk/strategic-plan)

<sup>46</sup> [www.hiw.org.uk/advisory-board-2](http://www.hiw.org.uk/advisory-board-2)

Yr hyn a ddywedom....	Yr hyn a wnaethom....
<b>Safonau Perfformiad:</b>	
<p><i>Amcanion Cyflenwi</i></p> <p>Cyflenwi mewn perthynas â'r amcanion penodol a nodir yn y cynllun hwn os na fydd amcanion yn cael eu cyflawni, gallu dangos tystiolaeth o'r rheswm dros amrywiad a defnyddio'r wybodaeth hon i addasu tybiaethau cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod.</p>	<p>Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymateb i'r amcan hwn mewn dull agored a thryloyw.</p>
<p><i>Prosesau Mewnol</i></p> <p>Adrodd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu adborth ar lafar i'r corff sydd wedi cael ei arolygu o fewn dwy awr o'r arolygiad</li> <li>• darparu llythyr rheoli gyda manylion unrhyw gamau gweithredu ar unwaith o fewn dau ddiwrnod o'r arolygiad</li> <li>• darparu adroddiad drafft er mwyn gwirio ei gywirdeb o fewn uchafswm o dair wythnos o'r arolygiad</li> <li>• cyhoeddi adroddiad a chynllun gweithredu y cytunwyd arnynt ar wefan AGIC o fewn uchafswm o dri mis o'r arolygiad.</li> </ul>	<p>Roedd hwn yn darged anodd i ni. Mae'r ffigurau sy'n berthnasol i bob elfen i'w gweld isod, ond ceir manylion pellach ym mhrif ran yr adroddiad hwn.</p> <p>Dwy awr – 100%</p> <p>Dau ddiwrnod – 68%</p> <p>Tair wythnos – 61%</p> <p>Tri mis – 67%</p>
<p><i>Safbwynt y defnyddiwr</i></p> <p>Iansio gwefan newydd yn ystod mis Ebrill 2014 a pharhau i'w datblygu a'i gwella yn ystod y flwyddyn.</p> <p>ystyried gwaelodlin ar gyfer ymwybyddiaeth a chanfyddiad o AGIC a mesur sut mae hwn yn newid dros gyfnod o amser.</p>	<p>Gwnaethom gynnal dadansoddiad o randdeiliaid a'i ddefnyddio i lywio strategaeth gyfathrebu ar gyfer 2014/15. Canfu Ruth Marks farn rhanddeiliaid hefyd ac adrodd ar y farn honno.</p>
<p><i>Y sefydliad a phobl</i></p> <p>Bod o leiaf 70% o staff AGIC sy'n ymateb i'r arolwg yn nodi eu bod wedi gallu cael mynediad at y cyfleoedd dysgu a datblygu cywir pan oedd angen arnynt cynnal o leiaf wyth seminar staff yn ystod 2014/15.</p>	<p>Yn ôl ein hadroddiadau arolwg staff, mae 77% o staff AGIC yn gallu cael mynediad at y cyfleoedd dysgu a datblygu cywir pan fydd angen arnynt.</p> <p>Gwnaethom gynnal 14 seminar staff.</p>